28 Hydref 2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai - yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y tîm fu’n gyfrifol am gyflawni’r gwaith yn cynnwys Nick Selwyn - Rheolwr Prosiect, Simon Pippard, Charlotte Owen a Martin Gibson a chydweithwyr o PwC, KPMG a Grant Thornton dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost info@wao.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb 7

Argymhellion 12

1 Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy'n golygu ei bod yn anos cyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol 14

Yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang, cwblhaodd llywodraeth y DU adolygiadau o wariant yn 2011 a 2013, a arweiniodd at doriadau mawr mewn gwariant cyhoeddus a disgwylir i'r grant cynnal refeniw i gynghorau fod tua £0.5 biliwn yn llai erbyn 2016 16

Mae gan gynghorau ystod eang o gyfrifoldebau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd 19

Mae gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd yn aml yn flaenoriaeth leol ar gyfer gwella i gynghorau 22

Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch, iechyd a lles trigolion Cymru ac ymwelwyr â Chymru, a bydd lleihau'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol 26

2 Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau wedi lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf 27

Mae cynghorau wedi lleihau cyllidebau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 4.2 y cant dros y tair blynedd diwethaf ond mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonynt gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn hefyd 28

Ers 2011-12, gwelwyd lleihad sylweddol o rhwng 14.2 y cant a 19.7 y cant yn nifer y staff ym mhob un o brif feysydd gwaith iechyd yr amgylchedd 33

Mae pob cyngor wedi sefydlu prosesau i oruchwylio toriadau mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ond nid yw'r gwaith o graffu ar weithgarwch a deall effaith toriadau cyllidebol bob amser yn gynhwysfawr nac yn cael ei gyfleu'n effeithiol i ddinasyddion 37

3 Mae cynghorau'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran iechyd yr amgylchedd i raddau helaeth ond mae rhai meysydd gweithredu allweddol yn wynebu pwysau cynyddol 42

Mae cynghorau yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safonau gofynnol yn y rhan fwyaf o feysydd y safonau arfer gorau ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw hyn yn gynaliadwy 43

Ceir darlun cymysg o berfformiad gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau yn ei gwneud yn anodd cynnal perfformiad yn y dyfodol 45

4 Mae gwasanaethau iechyd amgylcheddol yn dod yn anghynaliadwy ac mae angen i gynghorau wneud dewisiadau strategol newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio os ydynt i barhau i fodloni eu cyfrifoldebau statudol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol 49

Mae dulliau graddol ac adweithiol o wneud toriadau cyllidebol a thoriadau o ran staff yn atal cynghorau rhag sicrhau bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol 50

Mae gwendidau yn y ffordd y mae cynghorau'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth amgylcheddol sy'n tanseilio eu gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol 54

Mae dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd a bydd cynghorau'n ei chael hi'n anodd eu cyflawni 55

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 59

Atodiad 2 – Cyllid cynghorau yng Nghymru 60

Atodiad 3 – Amcanion gwella cynghorau ar gyfer 2013-14 yn ymwneud â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 62

# Adroddiad cryno



# Crynodeb

1 Mae llywodraeth leol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio a chefnogi cymunedau lleol a darparu arweinyddiaeth gymunedol a chynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae cynghorau hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rheng flaen hanfodol ac mae ganddynt gyfrifoldebau statudol am lawer o bethau sy'n effeithio ar fywydau pobl. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys addysg ysgol, cynllunio a thrafnidiaeth; iechyd yr amgylchedd; gwasanaethau cymdeithasol; tai; rheoli gwastraff; a hyrwyddo cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy. Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu'r gwaith o asesu, rheoli ac atal ffactorau yn yr amgylchedd a all effeithio'n andwyol ar iechyd pobl. Maent yn cwmpasu amrywiaeth o faterion sy'n peri pryder penodol i'r cyhoedd, fel diogelwch bwyd, rheoli plâu, baw cŵn a llygredd dŵr. Mae cyfrifoldebau cynghorau'n cynnwys: asesu ansawdd y cartrefi lle mae pobl yn byw; asesu diogelwch gweithleoedd; archwilio hylendid lleoedd bwyta a mannau lle caiff bwyd ei gynhyrchu; lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer; delio â phroblemau sy'n deillio o sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a rheoli plâu a chŵn.

2 Fel y nodir yn adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol, *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*[1], mae'r DU yn wynebu cyfnod o galedi ariannol na welwyd ei debyg o'r blaen sydd â goblygiadau sylweddol i wariant cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad i'r adolygiadau o wariant, gwelwyd toriadau mawr yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Rhwng 2010-11 a 2013-14, lleihaodd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru tua £1 biliwn (saith y cant) mewn termau real (ar sail prisiau 2010-11). Erbyn diwedd 2016, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn disgwyl y bydd gan lywodraeth leol ddiffyg o £460 miliwn. Felly, mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i leihau costau ond mae dyletswydd arnynt o hyd i ddarparu llawer o wasanaethau statudol yn ogystal â rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus.

3 Mae cynghorau'n cael eu profi o ran y ffordd y maent yn ymateb i'r her hon. Mae maint y lleihad mewn costau sydd ei angen yn golygu y bydd yn rhaid i gynghorau edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor uniongyrchol a meddwl mewn ffordd fwy radical am sut i leihau costau a sut i gynnal hyn yn y tymor hwy tra'n parhau i wella gwasanaethau. Er mwyn lleihau gwariant yn effeithiol, bydd angen i gynghorau ystyried materion mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau na fydd ansawdd gwasanaethau yn dirywio mewn meysydd cyflawni â blaenoriaeth. Dylai cynghorau flaenoriaethu'r gwasanaethau pwysicaf yn glir, yn seiliedig ar asesiad cywir a realistig o gostau, buddiannau a risgiau'r opsiynau i dorri gwariant.

4 Mae'r astudiaeth hon, sef y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau sy'n ystyried sut mae cynghorau'n ymdopi wrth geisio cyflawni â llai, yn ystyried effaith toriadau mewn adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Mae gennym resymeg glir dros ddethol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer ein hastudiaeth genedlaethol gyntaf ar gyflawni â llai. Amlygir iechyd yr amgylchedd fel gwasanaeth lle dylai cynghorau gydweithio'n fwy effeithiol yn Adroddiad 'Simpson'[2]. Mae iechyd yr amgylchedd hefyd yn wasanaeth sydd wedi cael llai o flaenoriaeth na meysydd llywodraeth leol eraill fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Yn olaf, mae dinasyddion yn rhoi gwerth mawr ar lawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd yr

1 Swyddfa Archwilio Cymru, *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*, 27 Ionawr 2014
2 Y Ganolfan Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol, *Local, Regional, National: what services are delivered where?* Mawrth 2011

amgylchedd cynghorau, gwaith fel mynd i'r afael â niwsans sŵn, delio â baw cŵn ac arolygu safleoedd bwyd.

5 Paratowyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Nodir ein dulliau yn Atodiad 1 ac roeddent yn cynnwys arolwg ar-lein er mwyn i aelodau o'r cyhoedd ddweud wrthym am eu profiadau o wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn eu hardal a'u hymwybyddiaeth o'r ffordd y mae eu cyngor yn bwriadu lleihau gwariant ac yn gwneud hynny.

6 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **cynghorau'n cyflawni eu rhwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd i raddau helaeth ond oherwydd toriadau i gyllidebau a lefelau staffio, gwaith trawsnewid cyfyngedig a threfniadau cynllunio adnoddau gwael, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn wynebu risg o fethu â chyflawni eu cyfrifoldebau presennol ac ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol.**

## Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy'n golygu ei bod yn anos cyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol

7 O ganlyniad i'r adolygiadau o wariant, gwelwyd toriadau mawr yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Rhwng 2010-11 a 2013-14, lleihaodd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru tua £1 biliwn (saith y cant) mewn termau real (ar sail prisiau 2010-11). Erbyn diwedd 2016, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn disgwyl y bydd gan lywodraeth leol ddiffyg o £460 miliwn.

8 Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu buddsoddiad ym maes creu swyddi, gwella cyrhaeddiad addysgol a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Drwy flaenoriaethu'r meysydd hyn, mae gwasanaethau eraill yn cael llai o flaenoriaeth ac, oherwydd hynny, llai o ddiogelwch rhag y toriadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud. Yn 2012-13, gwariwyd y rhan fwyaf o gyllidebau cynghorau ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cyfrif am 63 y cant o wariant refeniw net.

9 Mae gan gynghorau dros 200 o bwerau statudol gwahanol ym maes iechyd yr amgylchedd. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw waith yng Nghymru i nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau nac i gytuno ar flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.

10 Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, drwy eu safonau arfer gorau, wedi diffinio ymhellach yr amrywiaeth o wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol a dewisol a ddarperir gan gynghorau yng Nghymru. Mae'r amrywiaeth eang hwn o wasanaethau yn dangos pwysigrwydd iechyd yr amgylchedd o ran diogelu'r cyhoedd a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn ymweld â Chymru. Er bod y safonau arfer gorau yn amlinellu cyfrifoldebau statudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau, gellid eu gwella drwy gysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol yn well.

11 Mae gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd yn aml yn flaenoriaeth leol ar gyfer gwella i gynghorau. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gynghorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Yn 2013-14, mae 17 o'r 22 o gynghorau wedi mabwysiadu amcanion sy'n ymwneud â gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Pennodd 11 o gynghorau amcanion yn ymwneud â'r angen i wella ansawdd, cyflwr a/neu fforddiadwyedd tai; pennodd wyth cyngor amcanion i wella a diogelu'r amgylchedd; rhoddodd pum cyngor flaenoriaeth i wella iechyd; a rhoddodd un cyngor flaenoriaeth i wella gwasanaethau iechyd y cyhoedd a diogelu'r cyhoedd.

12 Bydd llai o wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio ar y gallu i gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi pedair thema strategol eang ar gyfer tymor 2011-2015 y Cynulliad. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau a'r ffordd y maent yn helpu i wella iechyd, lles a gwasanaethau cyhoeddus.

## Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau wedi lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf

13 Yn 2013-14, roedd gwariant ym maes iechyd yr amgylchedd yn cyfrif am lai na 0.5 y cant o holl wariant llywodraeth leol, sef £39.5 miliwn o gyfanswm gwariant o £9,047 miliwn. Mae cynghorau wedi lleihau cyllidebau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 4.3 y cant dros y tair blynedd diwethaf. At hynny, mae bron dri chwarter y cynghorau hefyd yn cyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ar ben y toriadau hyn yn y gyllideb flynyddol. Gwelwyd toriadau o tua 20 y cant yn y gyllideb ar gyfer rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol pwysig dros y tair blynedd diwethaf.

14 Ers 2011-12, mae nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn ar draws y 22 o gynghorau yng Nghymru wedi lleihau tua saith y cant ond mae nifer y staff a gyflogir mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau 16.4 y cant. Gwelwyd lleihad sylweddol o rhwng 14.2 y cant a 19.7 yn nifer y staff ym mhob un o brif feysydd gwaith iechyd yr amgylchedd dros y tair blynedd diwethaf.

15 Canfu ein harolygon, er bod cynghorwyr yn cael gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau ar doriadau cyllidebol mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, mae cyfran sylweddol ohonynt - 46 y cant - yn aneglur ynghylch effaith eu penderfyniadau a pha un a fydd gwasanaethau'n gallu parhau i gyflawni yn y dyfodol. Mae 70.4 y cant o'r cynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg o'r farn bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu cyngor yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac mae 69.4 y cant o'r farn bod y gwasanaethau hyn yn gwella. Gwelsom nad oes gan aelodau etholedig y sgiliau na'r cymorth angenrheidiol i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed nac effaith gostyngiadau yn y gyllideb na'u herio'n effeithiol.

16 Fodd bynnag, nid yw staff iechyd yr amgylchedd cynghorau mor ffyddiog y gellir cynnal ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae 63.3 y cant o staff o'r farn bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ar hyn o bryd. Dim ond 50.4 y cant o staff sydd o'r farn bod cynghorwyr ac uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Dim ond 46.4 y cant o staff y cynghorau sydd o'r farn bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gwella.

17 Mae'r aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'n harolwg yn gadarnhaol ar y cyfan am safon y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd ond nid ydynt yn ymwybodol iawn o lefelau perfformiad presennol na chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae 58.3 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y maent wedi'i dderbyn yn wych. Dim ond 26 y cant o'r ymatebwyr sydd o'r farn bod eu cyngor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am berfformiad y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Dim ond 24 y cant o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg sydd o'r farn bod eu cyngor wedi ymgysylltu'n effeithiol â hwy mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer y dyfodol a'u bod yn gwybod yn glir sut y bydd toriadau yn y dyfodol yn effeithio arnynt. Mae angen i gynghorau wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â thrigolion lleol ynghylch toriadau arfaethedig i gyllidebau a newidiadau mewn gwasanaethau.

## Mae cynghorau'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran iechyd yr amgylchedd i raddau helaeth ond mae rhai meysydd gweithredu allweddol yn wynebu pwysau cynyddol

18 Dengys ein dadansoddiad o'r safonau arfer gorau fod cynghorau o'r farn eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safon ofynnol yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd, a bod: 37 y cant o'r holl safonau arfer gorau yn cyrraedd y lefel uchaf yn ôl pob golwg; 30 y cant yn cyrraedd safon dda; 22 y cant yn cyrraedd y safon ofynnol; a dim ond 11 y cant islaw'r safon ofynnol. Y meysydd lle yr ystyrir bod cyfrannau sylweddol o berfformiad islaw'r safonau gofynnol yw: gwella iechyd, gyda 32 y cant islaw'r safon ofynnol; rheoli llygredd, gyda 13.8 y cant islaw'r safon ofynnol; recriwtio, gydag 11.6 y cant islaw'r safon ofynnol; a thai, gyda 10.3 y cant islaw'r safon ofynnol. Yn rhai o'r gwasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol y gwelwyd y lleihad mwyaf mewn adnoddau staff.

19 Ceir darlun cymysg o berfformiad gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau yn ei gwneud yn anodd cynnal perfformiad yn y dyfodol. Canfu ein hadolygiad o'r data cenedlaethol a gyhoeddir gan gynghorau ar eu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mai cymysg fu perfformiad gwasanaethau gwella a gorfodi tai yn y sector preifat dros y blynyddoedd diwethaf a gall y gostyngiad mewn gwariant cyfalaf effeithio ar y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae perfformiad ym maes diogelwch bwyd yn cael ei gynnal ond am fod nifer y safleoedd a arolygir wedi lleihau mae risg y bydd cynghorau yn cael trafferth ateb unrhyw gynnydd yn y galw yn y dyfodol. Mae nifer y busnesau sy'n destun arolygiadau iechyd a diogelwch wedi lleihau a chymysg yw perfformiad cynghorau.

## Mae gwasanaethau iechyd amgylcheddol yn dod yn anghynaliadwy ac mae angen i gynghorau wneud dewisiadau strategol newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio os ydynt i barhau i fodloni eu cyfrifoldebau statudol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

20 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cyrraedd trobwynt ac mae angen i gynghorau wneud dewisiadau strategol newydd a chanfod ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio. Mae ffyrdd adweithiol o wneud toriadau i gyllidebau a lefelau staff yn llesteirio gallu cynghorau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gynaliadwy yn y dyfodol. Hyd yma, drwy doriadau tameidiog bob blwyddyn y mae cynghorau wedi gwneud arbedion cyllidebol ym maes iechyd yr amgylchedd yn bennaf. Mae arbedion a thoriadau cyllidebol wedi canolbwyntio ar newid telerau ac amodau, ad-drefnu gwasanaethau a lleihau cymorth cefn swyddfa a chymorth gan reolwyr. Gydag un eithriad, mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o waith a wnaed yn y rhan fwyaf o gynghorau i ddiogelu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd at y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau statudol eu cynnal. Mae hyn yn peri risg i iechyd a lles y bobl sy’n byw yng Nghymru ac yn ymweld â Chymru.

21 Mae gwendidau yn y ffordd y mae cynghorau’n casglu ac yn dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas ag iechyd yr amgylchedd yn tanseilio eu gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae’r ffordd y caiff data eu rheoli a’u defnyddio yn canolbwyntio ar faint a niferoedd ac weithiau ansawdd (neu foddhad) ond anaml y rhoddir pwyslais ar ddeall neu ddangos effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar iechyd a lles y cyhoedd. Mae angen i gynghorau wella’r ffordd y maent yn dadansoddi data er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau. Bydd cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol yn allweddol i hyn. Fodd bynnag, oherwydd y gwendidau hyn, mae’n anodd gwerthuso buddiannau’r gwasanaeth a’r effaith y bydd toriadau cyllidebol yn ei chael ar ddinasyddion.

22 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd bwysig a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Mae Bil Tai (Cymru) a Phapur Gwyn *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*, yn ogystal â’r Papur Gwyn diweddar ar Lywodraeth Leol mewn ymateb i Gomisiwn Williams, yn nodi cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus a diogelu iechyd a lles pobl yng Nghymru ymhellach. Mae cynghorau’n parhau i bryderu na fyddant yn gallu bodloni’r ymrwymiadau hyn oherwydd lleihad yn nifer y staff dros y blynyddoedd diwethaf ac ansicrwydd ynghylch adnoddau ar gyfer y dyfodol ac mae angen i’r dyletswyddau mewn deddfwriaeth tai ac iechyd newydd gael eu nodi’n glir ar gyfer cynghorau.

# Argymhellion

23 Yr argymhellion allweddol sy'n deillio o'r gwaith a wnaed gennym yw:

| Argymhelliad | | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

<table>
<tr><th colspan="2">Argymhelliad</th><th>Partneriaid cyfrifol</th></tr>
<tr><td>A5</td><td>Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.</td><td>Cynghorau</td></tr>
<tr><td>A6</td><td>Nodi’n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni.</td><td>Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</td></tr>
</table>

24 Dylai’r partneriaid cyfrifol a enwir uchod gydweithredu wrth benderfynu sut y byddant yn ymdrin â’r argymhellion hyn ar y cyd a sut y gellir cynnwys eraill; er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru.

## Rhan 1

Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy'n golygu ei bod yn anos cyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol



1.1 Mae gan gynghorau amrywiaeth o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae'r rhain yn amrywio o fynd i'r afael â gorlenwi ac amodau tai gwael i brofi llygredd aer ac arolygu ansawdd safleoedd bwyd. Fodd bynnag, oherwydd gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru a chynghorau, mae gan awdurdodau lleol lai o arian i gynnal y gwasanaethau hyn a helpu i gyflawni blaenoriaethau gwella cenedlaethol.

1.2 Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyriwn yn fras y materion allweddol sy'n deillio o adolygiadau cynhwysfawr o wariant 2011 a 2013; yr effaith ar gyllidebau Llywodraeth Cymru; a'r toriadau a wnaed i gyllidebau cynghorau yng Nghymru. Ystyriwn hefyd yr ystod eang o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd sydd gan gynghorau yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cyfrannu at Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Adolygwn hefyd amcanion gwella cynghorau yn 2013-14 er mwyn pennu faint o gynghorau sydd wedi blaenoriaethu gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd.

- Rheoli clefydau trosglwyddadwy
- Rheoli diogelwch bwyd
- Iechyd a diogelwch
- Recriwtio, hyfforddi a datblygu
- Iechyd porthladdoedd
- Rheoli plâu
- Rheoli cŵn
- Rheoli llygredd
- Diogelwch cymunedol
- Trwyddedu
- Tai

Chartered Institute of Environmental Health

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

## Yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang, cwblhaodd llywodraeth y DU adolygiadau o wariant yn 2011 a 2013, a arweiniodd at doriadau mawr mewn gwariant cyhoeddus a disgwylir i'r grant cynnal refeniw i gynghorau fod tua £0.5 biliwn yn llai erbyn 2016

1.3 Yn dilyn etholiad mis Mai 2010, cynhaliodd llywodraeth glymblaid newydd y DU Adolygiad o Wariant, a gwblhawyd ym mis Hydref 2010. Edrychodd yr Adolygiad o Wariant ar y cyfnod rhwng 2011-12 a 2014-15 ac fe'i llywiwyd gan awydd i leihau gwariant llywodraeth y DU er mwyn lleihau'r diffyg yn y gyllideb. Cyhoeddwyd manylion yr Adolygiad o Wariant ar 20 Hydref 2010 a chyflwynwyd toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus. Nod yr adolygiad hwn oedd torri gwariant cyhoeddus £81 biliwn dros oes y llywodraeth glymblaid, gyda thoriadau adrannol cyfartalog o 19 y cant. At hynny, cyhoeddwyd newidiadau mawr ym maes lles gan gynnwys gwerth £7 biliwn o doriadau, newidiadau i fudd-dal analluogrwydd, budd-dal tai a chredydau treth a chynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth i 66 oed o 2020. Mae cyflogeion yn y sector cyhoeddus hefyd yn wynebu cynnydd o £3.5 biliwn mewn cyfraniadau pensiwn cyhoeddus[3]. Oherwydd twf economaidd araf, cynhaliodd llywodraeth y DU Adolygiad arall o Wariant yn 2013 er mwyn addasu ei chynlluniau gwariant a chyflwyno dwy flynedd arall o doriadau mewn gwariant cyhoeddus, gan ymestyn y cyfnod o galedi ariannol i 2017-18.

1.4 Cytunir ar gyllideb Cymru yn dilyn adolygiadau o wariant llywodraeth y DU. Er y caiff rhywfaint o'r arian ei wario'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn unol â blaenoriaethau Gweinidogion, caiff cyfran sylweddol ei dyrannu i'r cyrff cyhoeddus a noddir ac a ariennir ganddi; er enghraifft llywodraeth leol, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd yr adolygiadau o wariant, gwnaed toriadau mawr i gyllidebau Llywodraeth Cymru. Rhwng 2010-11 a 2013-14, lleihaodd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru tua £1 biliwn (saith y cant) mewn termau real (ar sail prisiau 2010-11). Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiadau mwy sylweddol yn y gyllideb gyfalaf - tua 40 y cant, mewn termau real[4].

1.5 Her Llywodraeth Cymru yw ymdopi â'r toriadau hyn a nodi'r blaenoriaethau y bydd yn buddsoddi ynddynt. Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2014-15[5], cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn tri maes allweddol:

a twf economaidd a chreu swyddi;

b gwella cyrhaeddiad addysgol; a

c chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

1.6 Mae'r rhain yn feysydd gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth iddynt dros rai eraill wrth bennu cyllidebau a phenderfynu ble y caiff toriadau mewn gwariant cyhoeddus, yn enwedig grantiau, eu gwneud. Drwy dynnu sylw at y meysydd hyn, mae gwasanaethau eraill yn cael llai o flaenoriaeth ac, oherwydd hynny, llai o ddiogelwch rhag y toriadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud.

3 *An introduction to Spending Review,* Trysorlys EM, 2010
4 Swyddfa Archwilio Cymru, *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*, Ionawr 2014
5 Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Cyllid, *Cyllideb Derfynol 2014-15*, 3 Rhagfyr 2013

1.7 Yn gyffredinol, roedd arian refeniw Llywodraeth Cymru i gynghorau wedi gostwng £155 miliwn (3.8 y cant) mewn termau real yn 2011-12. Mewn termau real, bydd yr arian refeniw gan Lywodraeth Cymru tua £283 miliwn (saith y cant) yn is yn 2013-14 nag yr oedd yn 2010-11. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru leihad o £175 miliwn mewn arian craidd yn 2014-15 a lleihad arall o £65 miliwn yn 2015-16. Erbyn diwedd 2016, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn disgwyl y bydd gan lywodraeth leol ddiffyg o £460 miliwn[6].

1.8 Daw incwm cynghorau o amrywiaeth o ffynonellau a'r rhai pwysicaf yw'r grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cymru; y dreth gyngor; ardrethi annomestig; ac incwm/grantiau eraill (i gael eglurhad manylach o bob un o'r rhain, gweler Atodiad 2). Dengys Arddangosyn 1 fod incwm gros cynghorau yng Nghymru wedi cynyddu £0.5 biliwn rhwng 2009-10 a 2012-13, o £8.6 biliwn i £9.1 biliwn. Fodd bynnag, mae lefel y cymorth gan Lywodraeth Cymru yn gostwng, o 39 y cant o incwm cynghorau i 35 y cant a daw cyfran fwy o incwm o daliadau lleol erbyn hyn. Dros yr un cyfnod hwn, gwelwyd cynnydd bach o £66 miliwn ym mhŵer gwario cyfunol cynghorau yng Nghymru wrth i wariant refeniw gros gynyddu o £8.981 miliwn yn 2009-10 i £9.047 miliwn yn 2012-13[7].

1.9 Er mwyn gweithio allan cyfran pob cyngor o'r Grant Cynnal Refeniw, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo Asesiad o Wariant Safonol sy'n ystyried poblogaeth, strwythur cymdeithasol a nodweddion eraill pob awdurdod. Mae Llywodraeth Cymru (mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol) wedi datblygu fformiwlâu gwahanol ar gyfer y prif feysydd gwasanaeth, gan gynnwys: addysg; gwasanaethau cymdeithasol personol; yr heddlu; tân; cynnal a chadw priffyrdd; gwasanaethau amgylcheddol, diogelu a diwylliannol; tai; ac ariannu cyfalaf. Defnyddir y fformiwlâu hyn i ddarparu dyraniad dangosol tybiannol ar gyfer pob gwasanaeth cyngor. Mae rhaglen waith barhaus yn mynd rhagddi dan nawdd y Cyngor Partneriaeth er mwyn sicrhau bod y fformiwlâu'n parhau'n berthnasol ac yn gyfredol.

## Arddangosyn 1 – Incwm gros gwirioneddol (cost gwasanaethau) cynghorau yng Nghymru rhwng 2009-10 a 2012-13


| Ffynhonnell incwm ar gyfer pob cyngor yng Nghymru | 2009-10 £000oedd | 2010-11 £000oedd | 2011-12 £000oedd | 2012-13 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Grant cynnal refeniw | 3,161,194 | 3,270,013 | 3,353,746 | 3,233,291 |
| Incwm o'r dreth gyngor | 1,259,916 | 1,313,583 | 1,363,697 | 1,401,407 |
| Incwm o ardrethi annomestig | 804,412 | 841,300 | 718,103 | 820,533 |
| Incwm arall (grantiau a thaliadau) | 3,452,510 | 3,861,763 | 3,561,578 | 3,694,831 |
| **Cyfanswm** | **8,678,032** | **9,286,659** | **8,997,124** | **9,150,062** |

*Ffynhonnell: Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pob Cyngor yng Nghymru, Cyfrifon Statudol rhwng 2009-10 a 2012-13*

6 http://www.wlga.gov.uk/canolfan-y-cyfryngau-l-e-fwletinau-wlga/175m-down-and-counting
7 Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, pob cyngor yng Nghymru, cyfrifon statudol 2009-10 i 2012-13

1.10 Fodd bynnag, nid yw'r grant cynnal refeniw wedi'i glustnodi na'i neilltuo a chyfrifoldeb cynghorau yw penderfynu sut maent yn gwario eu dyraniad ar y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn golygu bod y grant yn hyblyg ac mae gan gynghorau ryddid sylweddol i benderfynu sut y caiff ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol, ac ym mha wasanaethau y dylid ei fuddsoddi. Dengys Arddangosyn 2 mai ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol y mae cynghorau'n gwario'r rhan fwyaf o'u harian, ac roedd y rhain yn cyfrif am 63 y cant o wariant refeniw net yn 2012-13[8]. Caiff 12 y cant o arian ei wario ar yr heddlu a gwasanaethau tân a chaiff y 25 y cant sy'n weddill ei wario ar holl wasanaethau eraill y cynghorau.

Arddangosyn 2 – Gwariant cyfredol net llywodraeth leol ar wasanaethau yng Nghymru 2012-13
Addysg a gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o wariant cynghorau a chyllidebau cyfyngedig sydd gan holl wasanaethau eraill y cynghorau.




*Ffynhonnell: StatsCymru, amcangyfrifon gwariant llywodraeth leol, 2012-13*

8 Mae gwariant cyfredol net ar wasanaethau yn cyfeirio at lefel gyffredinol y gwariant ar wasanaeth heb gynnwys unrhyw incwm sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Mae 'gwasanaethau canolog a gwasanaethau eraill' yn cynnwys costau rheoli corfforaethol a democrataidd a chostau heb eu dosbarthu.

## Mae gan gynghorau ystod eang o gyfrifoldebau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd

1.11 Mae gwasanaethau statudol, y mae'n ofynnol i gynghorau eu darparu, wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd o ganlyniad i nifer o ddarpariaethau, rheoliadau a chyfarwyddebau statudol unigol a dehongliadau o bob un o'r rhain gan farnwyr fesul achos. Weithiau, gall fod yn anodd iawn dehongli a phenderfynu pa un a yw gwasanaeth penodol yn un statudol neu ddewisol. Hyd yn oed os yw'n amlwg bod yn rhaid darparu gwasanaeth penodol (h.y. ni all y corff cyhoeddus ddewis rhoi'r gorau i'w ddarparu), gall fod cryn ddadlau o ran union lefel y ddarpariaeth statudol sydd ei hangen. Nid yw natur dameidiog darpariaeth ddeddfwriaethol yn helpu'r sefyllfa ac mewn nifer o wasanaethau, mae'n golygu bod angen i gynghorau, er enghraifft, edrych yn ôl ar ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd ar ddiwedd y 19eg ganrif.

1.12 Yn 2010, lluniodd Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol llywodraeth y DU (ar y cyd â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol) restr o'r dyletswyddau hyn er mwyn egluro cyfrifoldebau statudol llywodraeth leol. Ymgynghorodd yr adran honno â chynghorau yn Lloegr mewn perthynas â'r rhestr hon, ac ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd ei rhestr derfynol yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol llywodraeth leol yn Lloegr. Mae llawer o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn hefyd yn berthnasol i Gymru ac, yn absenoldeb rhestr debyg yng Nghymru, dyma'r darlun gorau o holl gyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol yng Nghymru yn ogystal â Lloegr.

1.13 Nododd Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU 1,340 o ddyletswyddau statudol gwahanol i gyd ac mae llawer o'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Er enghraifft, nododd y broses 46 o ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r amgylchedd a diogelu'r amgylchedd; 32 o ddyletswyddau gwahanol yn ymwneud â diogelwch yr amgylchedd a chynhyrchion; 37 yn ymwneud â chynhyrchu bwyd; 29 yn ymwneud â diogelwch bwyd; 10 yn ymwneud â labelu meddyginiaeth a bwyd; 37 yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd; a 13 yn ymwneud â gorfodi tai a gwella ansawdd tai yn y sector preifat[9]. Dengys dadansoddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fod gan gynghorau ystod eang o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ym maes iechyd yr amgylchedd y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni.

1.14 Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, drwy eu safonau arfer gorau, wedi ceisio diffinio ymhellach yr amrywiaeth o wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol a dewisol a ddarperir gan gynghorau yng Nghymru[10]. Yn fras, mae'r rhain yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau statudol i bob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd sy'n cwmpasu'r 11 o feysydd gweithgarwch a nodir ym mharagraff 2.1 uchod (Arddangosyn 3).

9 Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, *Summary of the review of statutory duties placed on local government*, Mehefin 2011. Gweler: www.gov.uk/government/publications/review-of-local-government-statutory-duties-summary-of-responses--2.

10 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru gyfan, safonau arfer gorau, Hydref 2013. Caiff y safonau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau i ganllawiau statudol; effaith deddfwriaeth neu gyfraith achosion newydd; ac adlewyrchu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r safonau'n diffinio gweithgarwch ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth ac yn egluro'r nodweddion ar gyfer: gwasanaeth o safon ofynnol; gwasanaeth o safon dda; ac arfer gorau ym mhob un o'r meysydd.

Arddangosyn 3 – Safonau arfer gorau 2013-14

### Rheoli clefydau trosglwyddadwy

Mae gan gynghorau gyfrifoldeb statudol dros glefydau heintus hysbysadwy yn eu hardal (sy'n cynnwys rheoli achosion o wenwyn bwyd) o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Dylid hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am glefydau heintus penodol a bydd yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy neu swyddogion yr awdurdod lleol yn ymchwilio i'r rhain er mwyn ceisio atal salwch rhag lledaenu o fewn y gymuned a cheisio canfod achosion posibl.

### Rheoli diogelwch bwyd

Mae cynghorau'n gyfrifol am arolygu safleoedd bwyd yn eu hardal yn rheolaidd ac am orfodi cyfraith bwyd berthnasol yn barhaus. Ymhlith eu dyletswyddau mae ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd am fwyd a safleoedd bwyd; cynnal gwaith samplu bwyd; rhoi cyngor ar bob mater yn ymwneud â diogelwch bwyd i'r cyhoedd a'r diwydiant bwyd; a chyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Trwyddedu mewn perthynas â safleoedd trwyddedig.

### Iechyd a diogelwch

Rhennir y cyfrifoldeb am orfodi iechyd a diogelwch rhwng awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i ymdrin â'r rhan fwyaf o safleoedd gwasanaeth a manwerthu mewn ardal a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymdrin â safleoedd mwy o faint fel ffatrïoedd. Mae awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau iechyd a diogelwch ac yn ymchwilio i gwynion am weithleoedd.

### Recriwtio, hyfforddi a datblygu

Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn galluogi staff i gyflawni eu swyddi'n fwy effeithiol. O ran iechyd yr amgylchedd, mae hyn yn cynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), sef y ffordd y mae staff iechyd yr amgylchedd yn cynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas â'u proffesiwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i wasanaethau iechyd yr amgylchedd gan ei bod yn aml yn ofynnol i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd roi tystiolaeth mewn achosion llys ac mae angen i swyddogion cymwys fodloni'r llys bod eu gwybodaeth yn gyfredol ac yn ddigon eang iddynt gael eu hystyried yn dystion arbenigol awdurdodol.

### Iechyd porthladdoedd

Mae'r DU yn mewnforio ychydig yn llai na 50 y cant o'i gofynion bwyd cyffredinol. Felly, mae'n bwysig bod mesurau diogelu iechyd y cyhoedd yn cael eu sefydlu a'u cynnal at ddibenion morgludo masnachol a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. I rai awdurdodau lleol mae hwn yn faes gwaith pwysig ac mae'n cynnwys arolygu llongau, gan gynnwys llongau teithwyr, er mwyn sicrhau bod safonau iechyd y cyhoedd yn cael eu cyrraedd; ymchwilio i achosion o salwch a gofnodir ymhlith cwmni neu deithwyr llongau; ac arolygu bwydydd a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

### Rheoli plâu

Mae cynghorau yn aml yn cynnig gwasanaeth rheoli plâu i gartrefi a safleoedd masnachol. Gallant ddarparu triniaethau i reoli llygod mawr, llygod, chwilod duon a phȳcs. Codir tâl am rai gwasanaethau ac er bod y gwasanaeth yn bwysig er mwyn delio â phlâu yr ystyrir eu bod yn cael effaith andwyol ar iechyd person, yr ecoleg neu'r economi, nid yw pob cyngor yn darparu'r gwasanaethau hyn.

*Ffynhonnell: Safonau arfer gorau, mis Hydref 2013*



### Rheoli cŵn

Mae cynghorau'n delio â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd am faw cŵn, cŵn crwydr, cŵn niwsans a chŵn peryglus. Mae gan gynghorau yng Nghymru hefyd y pŵer i greu gorchmynion rheoli cŵn penodol drwy Reoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) 2007.



### Pollution control

Mae cynghorau'n darparu amrywiaeth arbenigol o wasanaethau monitro, ymchwilio a gorfodi sy'n cwmpasu llygredd aer ac ansawdd aer; tir halogedig; a sŵn a dirgryniadau. Gall y gwaith hwn gynnwys adolygu ac asesu ansawdd aer; nodi a rheoleiddio tir halogedig; monitro nwyon tirlenwi yn rheolaidd ar safleoedd tirlenwi cyngor sydd wedi cau; mesur a dadansoddi sŵn a dirgryniadau; rheoleiddio prosesau diwydiannol; ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â diwydiant; darparu data a gwybodaeth amgylcheddol; a rhoi cyngor a chymorth technegol mewn perthynas â rheoliadau adeiladu, adfywio a phrosesau rheoli datblygu.




### Diogelwch cymunedol

Nid mater i'r heddlu ac awdurdodau tân ac achub yn unig yw diogelwch cymunedol. Mae cynghorau'n cyfrannu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Er enghraifft rheoleiddio, trwyddedu a safonau masnach drwy roi trwyddedau darparu alcohol ac adloniant er mwyn helpu i gadw trefn gyhoeddus a chynllun ardystio hylendid bwyd i fusnesau er mwyn atal achosion o wenwyn bwyd.



### Iechyd y cyhoedd

Mae a wnelo iechyd y cyhoedd â helpu pobl i gadw'n iach ac osgoi mynd yn sâl. Mae cynghorau'n gyfrifol am lawer o swyddogaethau iechyd y cyhoedd gan gynnwys rhoi cyngor a gwybodaeth am ystod eang o wasanaethau iechyd fel imiwneiddio, bwyta'n iach, tybaco ac alcohol, adfer ar ôl cyffuriau, iechyd rhywiol a phroblemau iechyd meddwl.



### Trwyddedu

Mae gwasanaethau trwyddedu cynghorau yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau, y deuwn ar draws y rhan fwyaf ohonynt o ddydd i ddydd. O ran iechyd yr amgylchedd, mae a wnelo trwyddedu ag ymweliadau ac arolygiadau a gynhelir mewn perthynas â safleoedd a gwasanaethau trwyddedig penodol sy'n effeithio ar iechyd dinasyddion ac anifeiliaid, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u trwyddedu at ddibenion lles anifeiliaid neu aciwbigo, tatŵs, tyllu cosmetig ac electrolysis.



### Tai

Mae gan bob landlord gyfrifoldeb cyfreithiol i gynnal a chadw ei eiddo a sicrhau ei fod yn cael ei osod mewn cyflwr da. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw beryglon iechyd a diogelwch difrifol yn yr eiddo. Os na fydd y landlord yn cyflawni'r ddyletswydd hon, bydd cynghorau'n arolygu'r eiddo gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) a, lle bo angen, yn gorfodi'r landlord i dynnu'r perygl(on) o'r eiddo. Rhaid i gynghorau hefyd gynnal cynllun trwyddedu ar gyfer mathau penodol o Dai Amlfeddiannaeth risg uchel. Mae amryw ddeddfau Seneddol hefyd yn rhoi pwerau disgresiwn i gynghorau fynd i'r afael ag amodau anfoddhaol mewn tai, tai amlfeddiannaeth a fflatiau, ac i leihau effaith eiddo a fu'n wag am gyfnod hir.
Mae cynghorau hefyd yn gwneud gwaith gwella cyfalaf mewn tai sector preifat drwy ardaloedd adnewyddu a chynlluniau adnewyddu grŵp, yn ogystal â darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

1.15 Er bod y safonau arfer gorau yn amlinellu cyfrifoldebau statudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau, gellid eu gwella drwy gysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol yn well. Er enghraifft, nid yw'r safonau'n nodi sut mae iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu'n ehangach at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru - annibyniaeth pobl hŷn neu wella iechyd. Mae angen i'r safonau arfer gorau cyfredol gael eu cysylltu'n gliriach â chanlyniadau strategol cenedlaethol er mwyn dangos pwysigrwydd iechyd yr amgylchedd ac effaith ehangach y gwasanaethau hyn yn well. Bydd hyn yn galluogi cynghorau, Llywodraeth Cymru a dinasyddion i weld yn glir y risgiau sy'n gysylltiedig â lleihau cyllid yn y gwasanaethau hyn drwy nodi'r effaith debygol ar gynghorau neu ddinasyddion os caiff gwasanaethau iechyd yr amgylchedd unigol eu lleihau neu eu diddymu'n llwyr.

## Mae gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd yn aml yn flaenoriaeth leol ar gyfer gwella i gynghorau

1.16 Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gynghorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Wrth ystyried ei ddyletswydd gyffredinol i wella, rhaid i gyngor bennu amcanion gwella gan ddefnyddio dealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau a wasanaethir ganddo, anghenion lleol a'i allu i'w diwallu. Dylai amcanion gwella hefyd gyfateb yn uniongyrchol i flaenoriaethau gwella'r cyngor[11].

1.17 Mae'r Mesur yn nodi amrywiaeth o feini prawf i'w defnyddio wrth ddewis amcanion gwella. Mae'r rhain yn cynnwys: blaenoriaethau lleol fel y'u nodir yn strategaeth gymunedol y cyngor; blaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol fel y'u mynegir gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd; neu'r cyd-destun byd-eang, er enghraifft, bygythiadau i iechyd, newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.


1.18 Dengys Arddangosyn 4 fod 17 o'r 22 o gynghorau wedi mabwysiadu amcanion gwella yn 2013-14 sy'n ymwneud â gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Pennodd 11 o gynghorau amcanion yn ymwneud â'r angen i wella ansawdd, cyflwr a/neu fforddiadwyedd tai; pennodd saith cyngor amcanion i wella a diogelu'r amgylchedd; rhoddodd pum cyngor flaenoriaeth i wella iechyd; a rhoddodd un cyngor flaenoriaeth i wella gwasanaethau iechyd y cyhoedd a diogelu'r cyhoedd. Nodir y rhestr lawn fesul cyngor yn Atodiad 3.

1.19 Yn ogystal â'r ystod eang o ddyletswyddau statudol y mae cynghorau'n gyfrifol amdanynt, maent hefyd yn darparu llawer o wasanaethau ataliol a dewisol. O ran iechyd yr amgylchedd, mae'r rhain yn cynnwys hybu iechyd, gwaith fel rhan o fentrau iechyd yn yr ysgol fel rhaglen Dewis Iach a delio â phlâu sy'n cael effaith andwyol ar iechyd person. Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at les cymunedau ac yn aml rhoddir gwerth mawr arnynt. Yn wir, cydnabyddir yn gynyddol werth y gwasanaethau ataliol a dewisol lefel isel hyn o ran hybu ansawdd bywyd. Yn aml, gallant hefyd oedi neu atal unrhyw angen am wasanaethau dwysach a drutach. Ond, am fod yn rhaid i gynghorau wneud toriadau sylweddol i'w cyllidebau a'u bod yn wynebu pwysau i flaenoriaethu adnoddau ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol, mae llawer o'r gwasanaethau dewisol gwerth uchel:cost isel hyn yn cael eu rhoi yn y fantol.

11 Llywodraeth Cymru, Mesur Llywodraeth Leol 2009


Arddangosyn 4 – Amcanion gwella cynghorau ar gyfer 2013-14

Rhoddodd 17 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru flaenoriaeth i waith iechyd yr amgylchedd fel rhan o'u hamcanion gwella ar gyfer 2013-14.





| | |
|---|---|
| 1 | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 2 | Rhondda Cynon Taf |
| 3 | Merthyr Tudful |
| 4 | Caerffili |
| 5 | Blaenau Gwent |
| 6 | Torfaen |
| 7 | Sir Fynwy |
| 8 | Bro Morgannwg |
| 9 | Caerdydd |
| 10 | Casnewydd |


*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad o amcanion gwella ar gyfer 2013-14*




Fe bennodd un ar ddeg o gynghorau amcanion yn ymwneud â'r angen i wella ansawdd, cyflwr a/neu fforddiadwyedd tai



Fe bennodd saith cyngor amcanion i wella a gwarchod yr amgylchedd



Fe bennodd pum cyngor amcanion yn ymwneud â'r angen i wella iechyd



Fe bennod un cyngor amcanion i wella gwasanaethau iechyd y cyhoedd a gwarchod

## Sylwadau o Arolwg Cynghorwyr Swyddfa Archwilio Cymru


Mae effaith yr amgylchedd ar iechyd yn peri pryder cynyddol.

Caiff gwasanaethau rheoleiddio eu hesgeuluso'n gyffredinol mewn llywodraeth leol ond maent yn dod yn hanfodol pan fydd troseddau difrifol yn digwydd. Gwasanaethau cefndir yw llawer o'r gwasanaethau hyn i raddau helaeth, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, ond mae unigolion yn gwerthfawrogi eu cymorth pan fydd pethau'n mynd o chwith. At y gwasanaethau hyn y mae awdurdodau'n troi pan fydd angen gwneud arbedion. Dros y blynyddoedd, mae llawer o'r gwasanaethau hyn wedi dioddef o ganlyniad i'r duedd hon hyd nes y gellir ystyried ar hyn o bryd eu bod ond yn darparu gwasanaeth sydd brin yn ddigonol.

Rwy'n sylweddoli bod y gwasanaeth hwn yn hanfodol i bob trigolyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn dioddef yn sgil toriadau'r Llywodraeth. Mae'n ymdrechu'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth da, ond mae prinder adnoddau yn golygu bod yn rhaid gostwng lefelau cyrhaeddiad ond nid safonau.

Mae'n hollbwysig cynnal gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn enwedig gan fod hwn yn faes gwaith risg uchel.

Yn aml mae Iechyd yr Amgylchedd yn cael ei ddiystyru ond mae'n un o'r gwasanaethau craidd a ddarperir gan lywodraeth leol. Mae'n bwysig bod adnoddau'n parhau i gael eu dyrannu i gefnogi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd oherwydd dim ond pan fyddant yn diflannu y bydd y cyhoedd yn sylweddoli'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae.



## Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch, iechyd a lles trigolion Cymru ac ymwelwyr â Chymru, a bydd lleihau'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol

1.20 Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi pedair thema strategol eang ar gyfer tymor 2011-2015 y Cynulliad, sef: twf a swyddi cynaliadwy; cyrhaeddiad addysgol; cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig; a gwella iechyd a lles pob dinesydd[12].

1.21 O dan y pedwar amcan cyffredinol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfres o ymrwymiadau i naill ai wella gwasanaethau presennol neu ddatblygu dulliau gweithredu newydd, ac mae wedi dyrannu arian i gefnogi'r gweithgarwch hwn. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â gwaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Er enghraifft: gwella ansawdd cartrefi yng Nghymru; atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; gwella diogelwch mewn cymunedau; a byw o fewn terfynau amgylcheddol a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

1.22 Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, nodir yn benodol waith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Er enghraifft:

a o dan y thema Cartrefi Cymru, cynigion i weithio gyda chynghorau er mwyn gwella ansawdd tai a safonau rheoli yn y sector rhentu preifat; ac

b o dan y thema iechyd a lles, datblygu strategaeth iechyd a lles anifeiliaid ac ymgynghori ar yr angen am fil iechyd y cyhoedd.

1.23 At hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd. Mae llawer iawn o waith iechyd yr amgylchedd yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles pobl leol. Er enghraifft, bydd nifer o gyfrifoldebau ym maes iechyd y cyhoedd a nodwyd ym Mhapur Gwyn *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*[13] yn cynyddu rôl iechyd yr amgylchedd yn y maes hwn.

1.24 Noda Prif Swyddog Meddygol Cymru, yn ei Hadroddiad Blynyddol, bwysigrwydd gwaith ymarferwyr iechyd yr amgylchedd wrth ddelio â phryderon iechyd y cyhoedd mor amrywiol â chanser, gordewdra, clefydau heintus, asthma, achosion o gwympo a marwolaethau ychwanegol y gaeaf. Ceir hefyd negeseuon allweddol am bwysigrwydd cynyddol rheoli alcohol, gwelyau haul, tyllu'r corff, safonau tai a hylendid bwyd ym maes iechyd y cyhoedd[14]. O ganlyniad, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at yr agenda genedlaethol ehangach ar gyfer iechyd, lles a gwella gwasanaethau cyhoeddus[15] ac yn chwarae rôl ataliol uniongyrchol ac anuniongyrchol bwysig.

12 Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/about?skip=1&lang=cy
13 http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/140402consultationcy.pdf
14 *Ein Dyfodol Iach,* Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2011
15 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu*: Diweddariad am y Camau Allweddol,* 2014

Rhan 2

# Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau wedi lleihau’n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf



2.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyriwn y gostyngiad yn y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau dros y tair blynedd diwethaf ac effaith y newidiadau hyn ar niferoedd a rolau staff. Ystyriwn hefyd berfformiad cynghorau mewn perthynas â chyflawni o fewn eu cyllidebau a'r newidiadau mewn adnoddau a wnaed o fewn timau iechyd yr amgylchedd cynghorau gwahanol.

## Mae cynghorau wedi lleihau cyllidebau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 4.2 y cant dros y tair blynedd diwethaf ond mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonynt gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn hefyd

### Mae gwariant ar iechyd yr amgylchedd yn cyfrif am lai na 0.5 y cant o holl wariant llywodraeth leol

2.2 Ychydig iawn o arian y mae cynghorau'n ei wario ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd, o gymharu â chyfanswm gwariant llywodraeth leol. Yn 2012-13, gwariodd cynghorau yng Nghymru £9,047 miliwn ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a gwariwyd £40.8 miliwn o'r swm hwnnw ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Mae hyn yn gyfystyr â 0.44 y cant o holl wariant cynghorau (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5 – Gwariant ar iechyd yr amgylchedd mewn cynghorau yng Nghymru fel cyfran o holl wariant cynghorau yng Nghymru yn 2012-13





*Ffynhonnell: Asesiad o gyllideb ac adnoddau staff Swyddfa Archwilio Cymru, mis Rhagfyr 2013 i fis Mai 2014; a datganiadau o wariant pob cyngor yng Nghymru a gymerwyd o'r cyfrifon statudol a gyhoeddwyd yn 2012-13*

2.3 Mae gwariant ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd hefyd wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Y gyllideb gyfunol ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn 2011-12 oedd £41.2 miliwn. Gostyngodd y ffigur hwn i £40.8 miliwn yn 2012-13 ac i £39.5 miliwn yn 2013-14. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 4.2 y cant rhwng 2011-12 a 2013-14.

2.4 O'n dadansoddiad o gyllideb ac adnoddau staff cynghorau, gwelsom fod 15 o'r 22 o gynghorau wedi torri eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14[16]. Dengys Arddangosyn 6 mai ym Mhowys (-19.76 y cant) a Chasnewydd (-19.5 y cant) y gwnaed y toriadau mwyaf yn y gyllideb. Cynyddodd saith cyngor eu gwariant yn ystod y cyfnod hwn gyda'r cynnydd mwyaf yng Ngheredigion (6.89 y cant) ac Ynys Môn (pump y cant).

Arddangosyn 6 – Gwahaniaeth canrannol rhwng cyllidebau a bennwyd yn 2011-12 a 2013-14





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb ac adnoddau staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*

16 Mae cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cynnwys gweithgareddau cymorth 'cefn swyddfa' a ddarperir gan gyfarwyddiaethau eraill ac ailgodir costau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd drwy fodel dosrannu ac maent yn cynnwys eu gorbenion cysylltiedig (dodrefn, cyfarpar, TG, ac ati).

2.5 Gwelsom hefyd fod 16 o'r 22 o gynghorau wedi tanwario yn erbyn eu cyllidebau iechyd yr amgylchedd, gan gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn yn ogystal â lleihau eu cyllidebau (Arddangosyn 7). Ym Mro Morgannwg y gwelwyd y tanwariant mwyaf yn 2011-12 (19.45 y cant). At ei gilydd, llwyddodd Ceredigion i fantoli'r gyllideb a gorwariodd pum cyngor yn erbyn eu cyllidebau iechyd yr amgylchedd. Ym Mhowys y gwelwyd y gorwariant mwyaf (7.22 y cant).


Arddangosyn 7 – Gwariant yn erbyn y gyllideb a bennwyd - cyfran o dan (-) neu dros (+) y gyllideb yn 2011-12




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb ac adnoddau staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*

2.6 Gwelir yr un patrwm ar gyfer cyllidebau 2012-13, er bod lefel yr arbedion a gyflawnwyd yn is na'r flwyddyn flaenorol. Dengys Arddangosyn 8 fod 16 o gynghorau wedi cyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn, ac mai Sir Fynwy a gyflawnodd yr arbedion mwyaf (13.7 y cant), yna Conwy (9.7 y cant) a Merthyr Tudful (8.7 y cant). Gwelwyd gorwariant mewn chwe chyngor. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y gorwariant mwyaf, sef 6.3 y cant o'r gyllideb.

Arddangosyn 8 – Gwariant yn erbyn y gyllideb a bennwyd - cyfran o dan (-) neu dros (+) y gyllideb yn 2012-13




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb ac adnoddau staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*

2.7 Dengys ein dadansoddiad fod llawer o gynghorau yn cynllunio toriadau mawr wrth bennu eu cyllidebau blynyddol ond bod yn rhaid iddynt hefyd gyflawni arbedion mawr ar ben y toriadau hyn er mwyn mantoli cyllideb gyffredinol y cyngor.

## Gwelwyd toriadau o tua 20 y cant yn y gyllideb ar gyfer rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol pwysig dros y tair blynedd diwethaf

2.8 Dangosodd ein dadansoddiad o wariant cynghorau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd fod tri gwasanaeth yn cyfrif am tua 75 y cant o'r holl wariant ar iechyd yr amgylchedd: rheoli llygredd; diogelwch bwyd; a thai. I'r gwrthwyneb, mae cynghorau'n gwario llai ar weithgarwch iechyd porthladdoedd a recriwtio, hyfforddi a datblygu staff iechyd yr amgylchedd. Yn y ddau faes hyn sy'n safonau arfer gorau, mae gwariant cyfunol y 22 o gynghorau yn llai na £0.5 miliwn ym mhob un.

2.9 Dengys Arddangosyn 9 mai gwariant cynghorau ar reoli plâu; trwyddedu; ac arolygiadau iechyd a diogelwch yn ystod y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14 sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil toriadau mewn cyllidebau iechyd yr amgylchedd hyd yma.

### Arddangosyn 9 – Newidiadau mewn cyllidebau iechyd yr amgylchedd ar gyfer Cymru gyfan yn ystod y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14

Mae cynghorau yn cynyddu eu gwariant ar waith datblygu staff a gwella iechyd, ond mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol allweddol wedi wynebu toriadau ariannol sylweddol.

| Maes safon arfer gorau | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | % </> |
|---|---|---|---|---|
| Recriwtio, hyfforddi a datblygu | £379,863 | £435,000 | £489,548 | 28.8% |
| Gwella iechyd | £936,212 | £945,997 | £1,065,007 | 13.7% |
| Iechyd porthladdoedd | £411,577 | £430,111 | £422,254 | 2.6% |
| Rheoli cŵn | £2,455,739 | £2,494,031 | £2,494,063 | 1.6% |
| Rheoli diogelwch bwyd | £8,296,373 | £8,391,288 | £8,396,251 | 1.2% |
| Rheoli llygredd | £9,937,479 | £9,882,211 | £9,645,695 | -3% |
| Tai | £8,896,846 | £9,051,050 | £8,497,075 | -4.7% |
| Rheoli clefydau trosglwyddadwy | £1,037,575 | £1,022,821 | £964,553 | -7% |
| Iechyd a diogelwch | £4,189,796 | £3,890,605 | £3,696,163 | -11.7% |
| Trwyddedu | £2,021,256 | £1,735,304 | £1,668,449 | -17.5% |
| Rheoli plâu | £2,638,487 | £2,606,370 | £2,138,510 | -18.9% |
| **Cyfanswm** | **£41,201,203** | **£40,884,788** | **£39,477,568** | **-4.18%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb a staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*


## Ers 2011-12, gwelwyd lleihad sylweddol o rhwng 14.2 y cant a 19.7 y cant yn nifer y staff ym mhob un o brif feysydd gwaith iechyd yr amgylchedd

2.10 Gweithlu cyngor yw un o'i asedau mwyaf a chaiff cyfran fawr o gyllideb cyngor ei gwario ar staff. Ar adeg o bwysau ariannol, yn aml y brif ffordd o fantoli cyllidebau yw drwy leihau nifer y staff drwy gynlluniau gwirfoddol i adael swyddi'n gynnar a rheoli swyddi gwag, lle na chaiff swyddi staff sy'n gadael eu llenwi. Disgwylir i'r duedd hon barhau wrth i gynghorau geisio lleihau costau staff ymhellach fel rhan o'u strategaethau i gyflawni gostyngiadau ychwanegol yn y gyllideb.

2.11 Dengys Arddangosyn 10 fod cyfanswm nifer y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio ar draws y 22 o gynghorau yng Nghymru wedi lleihau o 114,772 yn 2010-11 i 106,846 yn 2012-13.

Arddangosyn 10 – Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar draws yr awdurdod, gan gynnwys athrawon, ar 31 Mawrth a gyflogwyd gan gynghorau yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng 2010-11 a 2012-13

Lleihaodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn mewn cynghorau saith y cant rhwng 2010-11 a 2012-13.





*Ffynhonnell: Meincnodi Cymru[17], MU GEN 004: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar draws yr awdurdod, gan gynnwys athrawon, ar 31 Mawrth*

17 Defnyddir Meincnodi Cymru i storio data gwella gwasanaethau awdurdodau lleol. Ni chyflwynwyd unrhyw ddata gan Gyngor Ceredigion na Chyngor Torfaen ar gyfer 2012-13.

2.12 Gwelwyd lleihad mwy sylweddol o 16.4 y cant yn nifer y staff mewn gwasanaethau amgylcheddol cynghorau, o tua 1,046 yn 2011-12 i 874 yn 2013-14. Dengys Arddangosyn 11, er bod holl rolau staff wedi bod yn destun toriadau o fwy na 10 y cant, gweithwyr cefn swyddfa ac uwch swyddogion sydd wedi dioddef fwyaf. Mae'r duedd honno'n adlewyrchu awydd cynghorau i ddiogelu staff rheng flaen a'r gwasanaethau a ddarperir cymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae angen i gynghorau reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â lleihau nifer yr uwch reolwyr o ystyried yr angen, fel y nodir yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn, i newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd sylfaenol a diogel er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y dyfodol.

Arddangosyn 11 – Nifer y staff iechyd yr amgylchedd cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan gynghorau yng Nghymru yn ôl swyddogaeth yn ystod y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14

Lleihaodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan gynghorau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd 16.4 y cant rhwng 2011-12 a 2013-2014.




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb a staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*


2.13 Gall cynnal arolygon o farn staff fod yn ffordd werthfawr o ddeall cryfderau neu wendidau perthynol y gwasanaeth a lle i wella. Canfu ein harolwg o staff iechyd yr amgylchedd fod 96.8 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn deall gofynion eu swydd yn llawn ac o blith y rhain, roedd 77.8 y cant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i wneud eu gwaith yn dda.

2.14 Fodd bynnag, dim ond 35.7 y cant o'r staff a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ganddynt ddigon o amser i wneud yr holl waith sydd ei angen, o gymharu â 33.9 y cant a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o amser i wneud yr holl waith yr oedd angen iddynt ei wneud. Wrth i ragor o doriadau gael eu gwneud, mae'r sefyllfa hon yn debygol o waethygu ymhellach oni chaiff newidiadau eu gwneud i'r ffordd y caiff y gwasanaethau eu darparu.

2.15 Dengys ein dadansoddiad o newidiadau mewn lefelau staffio iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14 leihad sylweddol mewn adnoddau staff mewn rhai meysydd gwaith statudol allweddol, fel y nodir yn Arddangosyn 12.

Arddangosyn 12 – Y newid canrannol mewn lefelau staffio a chyllidebau iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14

Gwelwyd gostyngiad mewn cyllidebau a lefelau staffio yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14.




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllideb a staff iechyd yr amgylchedd cynghorau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14*

## Sylwadau o Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Iechyd yr Amgylchedd

Mae gan swyddogion fwy o waith i'w wneud yn enwedig mewn perthynas â'r cynllun sgorio newydd. Os caiff y gyllideb ei lleihau a swyddi eu colli, gall hyn effeithio'n fawr ar y gwasanaeth a rhoi pwysau cynyddol ar amser swyddogion gan arwain at gamgymeriadau o bosibl.

Yn gyffredinol, rydym yn gorfod gwneud mwy â llai o amser ac adnoddau, sy'n golygu bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd callach a mwy effeithlon o weithio, ac weithiau'n golygu na allwn wneud popeth yr arferwn ei wneud.

Mae'r llwyth gwaith cynyddol a'r toriadau yn nifer y staff wedi achosi mwy o straen. Nid yw'r rheolwyr wedi gwrando ar gyngor staff ar y lefelau staffio sydd eu hangen i ddelio â llwythi gwaith, ac maent yn rhoi mwy o bwysau ar staff i wneud mwy â llai, gan arwain at gamgymeriadau a chynnydd mewn lefelau salwch staff.

Mae toriadau'n golygu bod y gwasanaeth yn arafach wrth roi trwyddedau a chynnal arolygiadau, ac mae hynny'n creu ôl-groniad o achosion. Mae hyn hefyd yn golygu bod gwaith yn cael ei flaenoriaethau a bod rhai pethau'n cael eu gadael ar ôl.

Mae gennym fwy o waith adweithiol nag y gallwn ymdopi ag ef ac ni allwn ddechrau ar waith rhagweithiol statudol gofynnol fel arolygu.

Gyda thoriadau yn nifer y staff a disgwyliadau uwch, rwy'n ofni bod perfformiad yn dirywio ac felly'r gwasanaeth i'r cyhoedd. Rydym yn gweithio i derfynau amser ym mhopeth a wnawn ac ni roddir ystyriaeth ddigonol i'r hyn sydd angen ei wneud, gan olygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar frys a bod y rheini weithiau'n ddiffygiol ac yn gorfod cael eu hailystyried.



## Mae pob cyngor wedi sefydlu prosesau i oruchwylio toriadau mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ond nid yw'r gwaith o graffu ar weithgarwch a deall effaith toriadau cyllidebol bob amser yn gynhwysfawr nac yn cael ei gyfleu'n effeithiol i ddinasyddion

2.16 Oherwydd cymhlethdodau'r broses o gyflawni toriadau cyllidebol a deall yr effaith ar wasanaethau, mae angen i gynghorau sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am lunio polisïau (swyddogion gweithredol) a'r sawl sy'n gyfrifol am ddwyn penderfynwyr i gyfrif (pwyllgorau craffu) yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae gwybodaeth o ansawdd da a dadansoddiad manwl o dystiolaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am doriadau cyllidebol yn cael eu deall yn llawn a bod yr effaith bosibl yn cael ei nodi ar yr adeg y caiff penderfyniadau eu gwneud a'u hasesu.

2.17 Cymysg yw'r darlun o ran pa mor effeithiol fu'r broses o herio benderfyniadau cyllidebol a chraffu arnynt. Gwelsom fod pob cyngor wedi nodi arweinwyr clir ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefel cynghorwyr a swyddogion, er nad yw pob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd dan ofal un pennaeth gwasanaeth. Dywedodd llawer o gynghorwyr a swyddogion wrthym fod gwasanaethau yn aml yn cael eu rhannu rhwng cyfarwyddiaethau, adrannau a thimau gwahanol, ac roedd hynny, yn eu barn hwy, yn ei gwneud hi'n anodd i reolwyr, arweinwyr cabinet/gweithredol a chadeiryddion pwyllgorau craffu ddarparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth glir mewn perthynas â holl weithgarwch iechyd yr amgylchedd.

2.18 Roedd y rhan fwyaf o'r staff cyngor y cyfwelwyd â hwy hefyd o'r farn bod cynghorwyr yn cael eu hysbysu am yr effaith ar wasanaethau wrth wneud toriadau i gyllidebau gwasanaethau a bod penderfyniadau'n cael eu herio'n briodol. Fodd bynnag, awgryma nifer o'r swyddogion a'r cynghorwyr y cyfwelwyd â hwy a'r canfyddiadau o'n harolygon nad yw'r wybodaeth bob amser yn gynhwysfawr, yn effeithiol nac yn canolbwyntio ar faterion allweddol. Er enghraifft, er bod gan bob cyngor gofrestrau risg ar waith, gwelsom mai dim ond naw oedd wedi nodi bod effaith toriadau cyllidebol ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn risg fawr i wasanaethau. O blith y cofrestrau a oedd wedi nodi'r risgiau hyn, nid oedd pob un ohonynt yn ymdrin â hwy mewn ffordd gynhwysfawr nac yn cynnwys camau priodol i'w lliniaru neu amserlenni i reoli'r risgiau.

2.19 At hynny, cred dros ddwy ran o dair o'r cynghorwyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y cyngor yn perfformio. Fodd bynnag, dim ond chwarter y cynghorwyr a arolygwyd sydd o'r farn bod gan eu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ddigon o adnoddau i wneud yr holl waith sydd ei angen i gyflawni rhwymedigaethau statudol y cyngor a dywedodd ychydig yn llai na hanner - 46 y cant - nad ydynt yn gwybod a oes gan eu gwasanaeth iechyd yr amgylchedd ddigon o adnoddau. Mae hyn yn dangos er bod cynghorwyr yn cael gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau am doriadau cyllidebol mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, mae cyfran sylweddol yn aneglur ynghylch effaith eu penderfyniadau a pha un a fydd gwasanaethau'n gallu parhau i gyflawni yn y dyfodol.

## Sylwadau o Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gynghorwyr

Credaf fod y rhan fwyaf o Gynghorwyr yn cael trafferth deall y gwasanaeth. Roedd cynghorwyr yn deall gofynion y gwasanaeth a'r broses o ddarparu'r gwasanaeth pan oedd cyfarfodydd pwyllgor rheolaidd ag adroddiadau rheolaidd i Gynghorwyr. Ymddengys bod gennym fwy o ddiddordeb erbyn hyn mewn dangosyddion perfformiad a thicio blychau na darparu gwasanaethau ac ystyried canlyniadau.

Fel Cynghorydd a benodwyd yn ddiweddar, ar 21ain Hydref 2013, teimlaf nad wyf yn ddigon cymwys i wneud gormod o sylwadau ar ansawdd y gwasanaeth.

Heb fod yn y swydd yn ddigon hir i fod wedi meithrin dealltwriaeth glir o weithdrefnau'r adran.

A dweud y gwir, wn i ddim amdano.

Nid wyf wedi ymwneud â'r gwasanaeth ers dechrau'r swydd.



2.20 Dangosodd ein harolwg hefyd fod cynghorwyr, yn gyffredinol, yn fwy optimistaidd na staff o ran ansawdd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar hyn o bryd a'r posibilrwydd o'u gwella yn y dyfodol. Er enghraifft, canfu ein harolygon y canlynol:

a Mae 63.3 y cant o staff yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu cyngor yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol o gymharu â 70.4 o gynghorwyr.

b Cred tri chwarter y cynghorwyr (74.2 y cant) fod eu cyngor yn annog staff i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o weithio o gymharu ag ychydig dros hanner y staff (54.6 y cant).

c Dim ond 46.4 y cant o staff cyngor sy'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu cyngor yn gwella o gymharu â 69.4 y cant o gynghorwyr.

ch Cred ychydig dros hanner y cynghorwyr (52.4 y cant) fod uwch reolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â staff y cyngor am gynlluniau'r cyngor ar gyfer y dyfodol o gymharu ag ychydig dros draean (37.7 y cant) o staff iechyd yr amgylchedd. Fodd bynnag, nododd traean o'r ymatebwyr o'r ddau grŵp nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am gynlluniau'r cyngor ar gyfer y dyfodol.

## Roedd aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'n harolwg yn gadarnhaol ar y cyfan am safon y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd ond nid ydynt yn ymwybodol iawn o lefelau perfformiad presennol na chynlluniau ar gyfer y dyfodol

2.21 O ran aelodau o'r cyhoedd, sef y bobl sy'n cael y gwasanaethau hyn, gwelsom ddarlun cymysg o ran i ba raddau y maent yn cael eu hysbysu am y newidiadau sy'n digwydd yn eu barn hwy. Gwelsom nad yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gweld newid sylweddol eto o ran y ffordd y mae eu cyngor yn darparu gwasanaethau iddynt. Er enghraifft, roedd 69 y cant yn teimlo eu bod yn parhau i gael ymateb cyflym pan fyddent yn gofyn am wasanaeth a dim ond 28.3 y cant oedd yn teimlo ei bod yn cymryd mwy o amser i ddelio â'u hymholiad. Dim ond 27.7 y cant a ddywedodd eu bod bellach yn talu am wasanaethau a ddarparwyd am ddim yn y gorffennol a dim ond 16.6 y cant a ddywedodd fod y tâl am y gwasanaeth wedi cynyddu. Dim ond 15.9 y cant a ddywedodd nad oedd y gwasanaeth y gwnaethant ofyn amdano yn cael ei ddarparu mwyach.

2.22 Er bod 90.5 y cant o'r dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg yn ymwybodol bod yn rhaid i gynghorau dorri eu gwariant ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, dim ond 33 y cant sydd o'r farn eu bod wedi cael gwybod ble mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion a lleihau gwariant a dywedodd cyfran fawr – 45.6 y cant – nad oeddent yn gwybod beth roedd eu cyngor yn bwriadu ei wneud nac ym mha feysydd y mae'n bwriadu cwtogi ar wasanaethau.

## Sylwadau o Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Iechyd yr Amgylchedd

Teimlaf fod proffil Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd ymhlith Uwch Reolwyr y Cyngor wedi dirywio'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi digwydd ers i'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Swyddogion blaenorol ymddeol. Nid oes gan y Cyfarwyddwr na'r Prif Swyddog presennol unrhyw gefndir ym maes Iechyd yr Amgylchedd a phrin yw eu dealltwriaeth o'r gwasanaeth er gwaethaf ein hymdrechion i'w haddysgu.

Nid oes unrhyw arweinyddiaeth strategol, dim ond rhuthr i ddileu swyddi a chyflawni mesurau arbed costau eraill, er gwaethaf y ffaith i mi ac aelodau eraill o staff awgrymu camau gweithredu eraill. Ni roddir unrhyw ystyriaeth i wasanaethau statudol na sut y byddwn yn cyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol ar ôl i swyddi gael eu dileu - mae arbedion canrannol gofynnol ar draws pob maes gwasanaeth yn enghraifft wych o anwybodaeth yn hyn o beth.

Mae diffyg dealltwriaeth gyffredinol ar lefel Cyfarwyddwyr ac uwch ac ymhlith aelodau etholedig o'r rôl y gall gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ei chwarae wrth hybu a diogelu iechyd y cyhoedd ym mhob rhan o'r gymuned a'r cyfraniad y gallant eu gwneud at gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol y cyngor ar gyfer y gymuned a wasanaethir.

Mae'r llwyth gwaith cynyddol a'r toriadau yn nifer y staff wedi achosi mwy o straen.

Oherwydd toriadau yn y gyllideb, mae'n anoddach darparu'r ystod lawn o wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, boed yn statudol neu'n anstatudol. Gyda'r dyfodol yn ansicr i lawer o'r cyflogeion, mae'n anodd cynnal cymhelliant.

Mae gostwng lefelau staffio, cyfyngiadau cyllidebol ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen yn cael effaith andwyol ar wasanaethau awdurdodau lleol ac eto, mae'r cyhoedd a'r peiriant gwleidyddol yn galw am fwy. Byddaf yn ymddeol mewn llai na chwe mis ac rwy'n ffodus fy mod yn gallu gwneud hynny. Rwy'n anobeithio ynghylch y math o lywodraeth leol fydd ar ôl i wasanaethu'r gymuned ar ôl fy nghyfnod i.

Diffyg adnoddau a gormod o bwyslais ar gyflawni targedau o ran arolygiadau bwyd ar draul meysydd eraill o waith iechyd yr amgylchedd.

Ymhlith rheolwyr lefel uchel a'r cynghorwyr, teimlaf fod nifer fach ond sylweddol nad ydynt yn deall rôl iechyd yr amgylchedd.



2.23 Dim ond 17.4 y cant o’r ymatebwyr sydd o’r farn eu bod yn gwybod sut y bydd gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithio arnynt o ran y gwasanaethau a gânt, o gymharu â 53.3 y cant sy’n honni nad ydynt wedi cael y wybodaeth honno. At hynny, dim ond 26 y cant o’r ymatebwyr sydd o’r farn bod eu cyngor yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am berfformiad y gwasanaethau y maent yn eu cael. Dim ond 24 y cant o’r rhai a ymatebodd i’n harolwg sydd o’r farn bod eu cyngor wedi ymgysylltu’n effeithiol â hwy mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer y dyfodol a’u bod yn gwybod yn glir sut y bydd toriadau yn y dyfodol yn effeithio arnynt.

2.24 Dengys yr ymatebion i’n harolwg fod angen i gynghorau fod yn fwy effeithiol o ran y ffordd y maent yn cyfathrebu â’u dinasyddion ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a’u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Sylwadau o Arolwg Dinasyddion Swyddfa Archwilio Cymru

Nid wyf yn cael cylchlythyr gan y Cyngor mwyach yn sôn am yr hyn y mae'n ei wneud. Nid ydym yn cael gwybod ym mhle y gallwn gael y wybodaeth hon.

Byddai'n braf cael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'n gwario ei gyllideb.

Nid yw'r cyngor yn ymgynghori â'i ddefnyddwyr cyn cwtogi ar wasanaethau neu eu newid.

Hoffwn weld system lle mae'r bobl leol yn cael eu hysbysu'n llawn ac yn gallu bod yn rhan o'r trafodaethau am yr hyn sydd angen ei ddarparu, a'r ffordd y caiff ei ddarparu. Yn hytrach na bod Cynghorau lleol yn gwneud penderfyniadau ac yn cwtogi ar wasanaethau heb ymgynghori.



## Rhan 3

# Mae cynghorau'n cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran iechyd yr amgylchedd i raddau helaeth ond mae rhai meysydd gweithredu allweddol yn wynebu pwysau cynyddol



3.1 Gyda gostyngiadau mawr mewn cyllidebau a lefelau staffio, mae gallu cynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran iechyd yr amgylchedd yn mynd yn anos byth ac yn heriol tu hwnt. Yn yr adran hon o'r adroddiad, dadansoddwn effaith newidiadau mewn adnoddau ar y gwasanaethau hyn a beth mae hyn yn ei olygu o ran perfformiad presennol. Ystyriwn berfformiad presennol yn erbyn y safonau arfer gorau a pherfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad cenedlaethol allweddol.


## Mae cynghorau yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safonau gofynnol yn y rhan fwyaf o feysydd y safonau arfer gorau ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw hyn yn gynaliadwy

3.2 Mae'r safonau arfer gorau yn adlewyrchu'n fras y rhwymedigaethau statudol ar bob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd sy'n cwmpasu 11 o feysydd gweithgarwch (fel y'u nodir ym mharagraff 2.1). Dengys ein dadansoddiad o'r safonau fod cynghorau yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safon ofynnol yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd (Arddangosyn 13). Yn gyffredinol, mae cynghorau'n ystyried eu bod yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd yr amgylchedd i safon uchel ac yn ystyried bod 37 y cant o'r holl safonau arfer gorau yn cyrraedd y lefel uchaf; 30 y cant yn cyrraedd safon dda; 22 y cant yn cyrraedd y safon ofynnol o wasanaeth a bennwyd; a dim ond 11 islaw'r safon ofynnol hon.

3.3 O ran swyddogaethau iechyd yr amgylchedd unigol, gwelsom mai'r meysydd lle yr ystyrir bod cyfrannau sylweddol o berfformiad islaw'r safonau gofynnol yw gwella iechyd - 32 y cant islaw'r safon ofynnol; rheoli llygredd gyda 13.8 y cant islaw'r safon ofynnol; recriwtio gydag 11.6 y cant islaw'r safon ofynnol; a thai gyda 10.3 y cant. Gwelsom hefyd fod cysylltiad rhwng lleihad yn nifer y staff a dirywiad mewn perfformiad yn erbyn y safonau arfer gorau mewn rhai meysydd o waith iechyd yr amgylchedd.

Arddangosyn 13 – Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o berfformiad presennol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn erbyn gofynion y safonau arfer gorau

Mae cynghorau'n cyflawni ymrwymiadau'r safonau arfer gorau i raddau helaeth er bod rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn wynebu pwysau cynyddol.




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o berfformiad cynghorau yng Nghymru o ran cyrraedd y safonau arfer gorau, 2013-14*

3.4 Er enghraifft, dengys Arddangosyn 14 leihad o 18.8 y cant yn nifer y staff ym maes gwella iechyd ac ystyrir bod 32 y cant o'r safonau arfer gorau islaw'r safon ofynnol. Yn yr un modd, gwelwyd lleihad o 19.45 yn nifer y staff mewn gwasanaethau rheoli llygredd ac mae cynghorau'n ystyried bod eu perfformiad yn erbyn 14 y cant o'r safonau islaw'r safon ofynnol. Yn yr un modd, mae nifer y staff tai wedi lleihau 14.15 y cant ac ystyrir bod 10 y cant o'r safonau arfer gorau islaw'r safon ofynnol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod rhai o'r gwasanaethau yr ystyrir bod cyfrannau sylweddol o'u perfformiad islaw'r safon ofynnol - recriwtio, hyfforddi a datblygu - hefyd wedi gweld twf mewn adnoddau dros y tair blynedd diwethaf, er bod y cynnydd gwirioneddol mewn staff a maint perthynol y gweithgarwch yn parhau'n fach iawn.

## Ceir darlun cymysg o berfformiad gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau yn ei gwneud yn anodd cynnal perfformiad yn y dyfodol

3.5 Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn helpu cynghorau i ddeall pa mor dda y maent yn perfformio mewn perthynas â'u nodau a'u hamcanion strategol. Yn yr ystyr ehangaf, gellir dweud bod dangosyddion perfformiad allweddol yn darparu'r wybodaeth bwysicaf am berfformiad sy'n galluogi sefydliadau neu eu rhanddeiliaid i ddeall pa un a yw'r sefydliad ar y trywydd cywir ai peidio.

3.6 Mewn cyfnod o galedi a gostyngiadau o ran gwariant a'r staff sy'n darparu gwasanaethau, mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnig ffordd o fesur effaith newidiadau o'r fath ar y gwasanaeth er mwyn penderfynu a yw gostyngiadau mewn gwariant yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol. Rydym wedi adolygu'r data cenedlaethol a gyhoeddir gan gynghorau ar eu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a rhoddwn grynodeb o berfformiad ym mharagraffau 3.7 i 3.13 isod. Yn gyffredinol, cymysg yw'r darlun o ran pa mor dda y mae cynghorau yn perfformio.


### Cymysg fu perfformiad gwasanaethau gwella a gorfodi tai yn y sector preifat dros y blynyddoedd diwethaf a gall y gostyngiad mewn gwariant cyfalaf leihau effaith y gwasanaethau hyn yn y dyfodol

3.7 Mae perfformiad o ran dod ag anheddau preifat gwag yn ôl i ddefnydd yn gwella wrth i gyfran yr eiddo a gafodd ei adfer i'w ddefnyddio gynyddu o 2.61 y cant yn 2008-09 i 5.11 y cant yn 2012-13[18]. Mae nifer y tai amlfeddiannaeth wedi cynyddu o 1,505 yn 2008-09 i 12,487 yn 2012-13. Fodd bynnag, mae'r gyfran sydd ag amodau trwydded, wedi gostwng o 82.5 y cant i 15.4 y cant. Bu cynnydd bach yn y nifer sy'n destun camau gorfodi o 1.9 y cant yn 2008-09 i 2.9 y cant[19].

18 Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru, *NSIW0001: Dangosyddion Strategol Cenedlaethol*
19 Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru, *HOUS0803: Anheddau trwyddedig*

Arddangosyn 14 – Cymharu gostyngiadau mewn cyllidebau yn erbyn cyfran y safonau arfer gorau yr ystyrir ei bod islaw'r safon ofynnol o wasanaeth

Mae rhai o'r gwasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol wedi profi'r lleihad mwyaf mewn adnoddau staff.




*Ffynhonnell: Hunanasesiad o safonau arfer gorau ac asesiad o gyllidebau ac adnoddau staff Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mai 2014*

3.8 Erys nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn debyg ar y cyfan – 4,288 yn 2008-09 o gymharu â 4,393 yn 2012-13 – ond mae lefel y buddsoddiad wedi lleihau o £35.7 miliwn i £32.7 miliwn yn yr un cyfnod. Mae'r amser cyfartalog a gymerir i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella o 375 diwrnod yn 2008-09 i 271 diwrnod yn 2012-13[20].

3.9 Fodd bynnag, mae lefel y buddsoddiad mewn gwaith adnewyddu yn y sector preifat wedi gostwng yn sylweddol o £26.7 miliwn yn 2008-09 i £12 miliwn yn 2012-13, er bod nifer y grantiau wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn o 7,278 i 9,755. Yn ystod yr un cyfnod, mae benthyciadau gan gynghorau i drigolion wedi cynyddu o £0.3 miliwn i £1.5 miliwn[21]. Fodd bynnag, mae'r math o waith a wneir a faint o waith a wneir mewn ardaloedd adnewyddu wedi newid ac mae cynghorau bellach yn gwneud llai o waith ar grantiau unigol nag yn y gorffennol.

3.10 Er enghraifft, o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllidebau cyfalaf, gwelsom fod gwariant ar waith gwella yn aml yn rhoi blaenoriaeth i gynlluniau atgyweirio grŵp, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau amgylchynol allanol, neu grantiau gwella cartrefi er mwyn mynd i'r afael â pheryglon sylweddol mewn annedd a nodwyd drwy HHSRS[22]. Fodd bynnag, oherwydd toriadau ariannol ac fel ffordd o ymestyn effaith eu buddsoddiad, mae llawer o gynghorau wedi capio lefel y buddsoddiad a gynigir i berchenogion a landlordiaid preifat. O ganlyniad, mae lefel y gwaith a wneir a/neu'r math o waith a wneir yn aml yn gyfyngedig ac nid yw'n caniatáu ar gyfer gwaith atgyweirio cynhwysfawr y tu mewn a'r tu allan i eiddo.

## Mae perfformiad ym maes diogelwch bwyd yn cael ei gynnal am fod nifer y safleoedd sy'n destun arolygiad wedi lleihau, ond mae risg y bydd cynghorau'n cael trafferth ateb unrhyw gynnydd yn y galw yn y dyfodol

3.11 Mae nifer y safleoedd bwyd a aseswyd er mwyn pennu eu cydymffurfiaeth â safonau diogelwch bwyd wedi lleihau 12 y cant o 36,186 yn 2010-11 i 31,953 yn 2012-13. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n cydymffurfio'n fras wedi cynyddu o 76.1 y cant i 88.6 y cant ond mae nifer y safleoedd yr ymwelwyd â hwy wedi aros yr un peth, sef tua 27,500[23]. Yn yr un modd, erys nifer y busnesau newydd a nodwyd ac a aseswyd i bennu eu safon hylendid yr un peth; 3,500 yn 2009-10 o gymharu â 3,455 yn 2012-13. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yng nghyfran y safleoedd a fu'n destun ymweliad asesu risg neu a gwblhaodd holiadur hunanasesu, gyda'r nifer yn cynyddu o 78 y cant i 83 y cant yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer y busnesau risg uchel a arolygwyd wedi lleihau o 11,793 yn 2008-09 i 9,563 yn 2012-13 - lleihad o 19 y cant. Erys cyfran yr ymweliadau a drefnwyd yr un peth, sef 99 y cant.

3.12 Nid yw'n glir o'r wybodaeth am berfformiad a gofnodwyd gan gynghorau pa un a yw'r lleihad yn nifer y busnesau bwyd wedi digwydd o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a niferoedd cynyddol o fusnesau sy'n methu, neu o ganlyniad i'r cynllun sgorio hylendid bwyd newydd sy'n gwella safonau. Sut bynnag, gall

20 Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru, *HOUS1301: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl*
21 Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru, *HOUS1101: Cymorth Adnewyddu'r Sector Preifat ar gyfer adnewyddu tai*
22 Cyflwynodd Deddf Tai 2004 y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai sydd wedi disodli'r safon addasrwydd fel ffordd o asesu amodau tai. Yn hytrach na safon benodol, mae'n defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar asesiad risg er mwyn lleihau risgiau o beryglon i iechyd a diogelwch mewn anheddau. Gall hyn gynnwys nodi peryglon lle mae angen gwneud gwaith, er enghraifft, i gyflenwad trydan, cyflenwad dŵr, system awyru, system gwres canolog neu ardaloedd allanol yr eiddo, fel llwybrau. Mae'r system yn berthnasol i bob annedd, ni waeth pwy sy'n berchen arni.
23 Yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, SID: Ffurflenni diogelu'r cyhoedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2009-10 a 2012-13

cynghorau ei chael hi’n anodd cynnal eu perfformiad o ran arolygiadau bwyd o ystyried y toriadau staff os bydd cynnydd yn nifer y safleoedd pan fydd y sefyllfa economaidd yn gwella a mwy o fusnesau’n cael eu hagor.

## Mae nifer y busnesau sy’n destun arolygiadau iechyd a diogelwch wedi lleihau a chymysg yw perfformiad

3.13 Mae nifer y busnesau newydd yng Nghymru a nodwyd gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn fusnesau lle roedd angen cynnal arolygiadau iechyd a diogelwch wedi lleihau 13.4 y cant, o 4,584 yn 2009-10 i 3,968 yn 2012-13. Fodd bynnag, mae nifer y busnesau newydd a fu’n destun ymweliad asesu risg neu a ddychwelodd holiadur hunanasesu hefyd wedi lleihau o 44 y cant yn 2009-10 i 39 y cant yn 2012-13[24]. Yn yr un modd, mae nifer y busnesau risg uchel a arolygwyd wedi lleihau o 1,141 yn 2008-09 i 1,007 yn 2012-13 - lleihad o 11.7 y cant. Erys nifer y busnesau a arolygwyd yn weddol debyg - rhwng 97 y cant a 99 y cant - ond caiff y perfformiad hwn ei gynnal, yn rhannol, o ganlyniad i leihad yn nifer y busnesau y mae angen eu hasesu. Wrth i’r sefyllfa economaidd wella a nifer y busnesau lle mae angen cynnal asesiadau iechyd a diogelwch gynyddu, mae risg y bydd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn ei chael hi’n anodd cynnal perfformiad o ganlyniad i doriadau diweddar mewn adnoddau.

24 Yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, SID: Ffurflenni diogelu’r cyhoedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2009-10 a 2012-13

# Rhan 4

Mae gwasanaethau iechyd amgylcheddol yn dod yn anghynaliadwy ac mae angen i gynghorau wneud dewisiadau strategol newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio os ydynt i barhau i fodloni eu cyfrifoldebau statudol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol



4.1 Mae dyfodol o doriadau ariannol mewn termau real dros gyfnod estynedig o amser yn rhywbeth na welwyd ei debyg o'r blaen yn yr oes fodern, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n arwain cynghorau ac yn gweithio ynddynt heddiw erioed wedi gorfod delio â heriau ariannol o'r fath. Mae maint y lleihad mewn costau sydd ei angen yn golygu bod yn rhaid i gynghorau edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor uniongyrchol a meddwl mewn ffordd fwy radical am ffyrdd i leihau costau a chynnal gwasanaethau statudol yn y tymor hwy tra'n parhau i wella gwasanaethau. Yn wir, dylai'r pwysau ariannol sylweddol hyn annog cynghorau i ystyried y ffordd y maent yn cyflunio ac yn darparu eu gwasanaethau mewn modd llawer mwy sylfaenol. Felly, yr her i gynghorau yw bod yn barod i ystyried ailgyflunio a thrawsnewid gwasanaethau mewn ffordd radical.

4.2 Yn y rhan olaf hon o'n hadroddiad, crynhown y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan gynghorau i leihau gwariant mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried i wella hyfywedd y gwasanaethau hyn a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.  Nodwn wendidau dulliau presennol o reoli data, nad ydynt yn galluogi cynghorau i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol na'r heriau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth newydd i wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Mae'r broses o gyflwyno dyletswyddau statudol ychwanegol yn codi pryderon am allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i barhau i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol oni fydd y ffordd y mae cynghorau'n cynllunio gwasanaethau a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn newid yn sylweddol.

## Mae dulliau graddol ac adweithiol o wneud toriadau cyllidebol a thoriadau o ran staff yn atal cynghorau rhag sicrhau bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol

4.3 Yn yr hinsawdd economaidd heriol dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynghorau wedi gorfod gwneud penderfyniadau am leihau gwariant er mwyn mantoli cyllidebau. Mae cyflawni'r arbedion hyn yn dod yn fwyfwy heriol.  Cafodd cynghorau yng Nghymru eu diogelu'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru rhag lefel y toriadau yr oedd yn rhaid i awdurdodau yn Lloegr ei rheoli. Er enghraifft, wrth bennu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12[25], penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chlustnodi gwariant ar y GIG. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r gostyngiadau mewn arian refeniw cynghorau wedi cynyddu'n raddol ac maent bellach yn cael effaith fawr.

4.4 Hyd yma, mae llawer o'r penderfyniadau a wnaed gan gyrff yn y sector cyhoeddus sy'n wynebu'r heriau anodd hyn wedi bod yn seiliedig ar reidrwydd i oroesi, ac wedi canolbwyntio ar fantoli'r gyllideb. O ganlyniad, maent wedi canolbwyntio ar ostyngiadau sy'n gymharol hawdd eu cyflawni fel dileu swyddi gwag a lleihau cyllidebau gweithredu fel hyfforddiant, cyfarpar a chyflenwadau swyddfa. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn rhagweld bylchau ariannu sylweddol dros y tair blynedd nesaf ac mae angen iddynt bellach ystyried o ddifrif opsiynau polisi a allai fod wedi'u gwrthod yn y gorffennol.

25 http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/localgov/110202finalsetlettere.pdf

4.5 Mae dadfusoddi'n effeithiol mewn gwasanaethau yn golygu mwy na dim ond lleihau gwariant. Mae angen hefyd ystyried amrywiaeth o ffactorau pwysig eraill - blaenoriaethau strategol y sefydliad, ei gyfrifoldebau statudol, lefelau a safonau perfformiad presennol a'r heriau byrdymor i dymor canolig y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae angen i'r broses o leihau gwariant ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd fod yn seiliedig ar ddull strategol deallus, fel arall mae cynghorau'n wynebu'r risg y daw'r gwasanaethau hynny'n fwy anghynaliadwy.

4.6 O'n gwaith maes, gwelsom fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi ceisio newid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd er mwyn gwella effeithlonrwydd ac ymestyn eu hadnoddau ymhellach. O blith y 22 o gynghorau, mae 19 wedi gwneud rhyw fath o newid a dim ond tri sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd yn fras ag y maent bob amser wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn seiliedig yn bennaf ar benderfyniadau byrdymor i helpu i fantoli cyllidebau a chyflawni targedau o ran arbedion corfforaethol ac ni chyflwynwyd unrhyw raglen waith drawsnewidiol ar gyfer unrhyw wasanaeth iechyd yr amgylchedd yng Nghymru.

4.7 Mae pwyslais a disgwyliad cynyddol gan Lywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau penodol, fel addysg, gwastraff a gwasanaethau cymdeithasol, gael eu darparu ar y cyd neu ar draws ranbarthau. Gall cydweithio a gosod elfennau gwahanol o weithrediad cyngor ar gontract allanol, os gwneir hynny am y rhesymau cywir, helpu i arbed arian drwy leihau gorbenion a gwella effeithlonrwydd. Y prif bryderon o ran cydweithio a gosod gwasanaethau ar gontract allanol yw colli rheolaeth, llai o delerau ac amodau i staff a chynnydd mewn prisiau adeg aildendro.

4.8 Gwelsom mai dim ond wyth cyngor oedd wedi ystyried gosod gwasanaethau ar gontract allanol ond mae'r opsiynau hynny a ystyriwyd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar feysydd gwaith cyfyngedig na fyddant yn cyflawni'r arbedion ariannol sylweddol y mae angen i gynghorau eu gwneud. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi gosod ei wasanaeth rheoli plâu ar gontract allanol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yn yr un modd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi datblygu gwasanaeth y tu allan i oriau ar y cyd. Mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyd-ariannu swydd Swyddog Iechyd Anifeiliaid ac Iechyd yr Amgylchedd.

4.9 Nodwyd hefyd rai enghreifftiau lle mae gwasanaethau wedi cael eu dwyn yn ôl yn fewnol. Er enghraifft, arferai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddarparu rhannau o'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd (baeddu gan gŵn, sbwriel a thrwyddedu) ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych. Fodd bynnag, daeth y trefniant hwn i ben yn ddiweddar ac mae'r gwasanaethau hyn wedi'u dwyn yn ôl yn fewnol gan weithio mewn partneriaeth â chwmni gorfodi preifat.

4.10 Ac eithrio'r gwasanaeth rheoleiddio ar y cyd arfaethedig rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg[26], ni welsom fawr ddim tystiolaeth bod cynghorau'n datblygu ateb rhanbarthol cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir ganddynt. Mae'r tri chyngor yn bwriadu creu un gwasanaeth rheoleiddio sy'n cwmpasu iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a thrwyddedu. Mae pob cyngor yn ystyried yr achos busnes dros y gwasanaeth rhanbarthol newydd hwn, y disgwylir iddo gael ei sefydlu, os caiff ei gymeradwyo, yn ystod hydref 2015-16. Mae'r achos busnes yn nodi y bydd cyfuno'r gwasanaethau hyn yn sicrhau arbedion o rhwng £1.1 miliwn ac £1.3 miliwn i'r tri chyngor.

4.11 Mae nifer o gynghorau hefyd wedi ceisio newid rolau a dyletswyddau staff mewn ymateb i doriadau staff drwy symud i ffwrdd oddi wrth swyddi arbenigol sy'n canolbwyntio ar un neu ddau faes iechyd yr amgylchedd a chreu Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cyffredinol sy'n ymdrin ag amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Er enghraifft, mae Cyngor Gwynedd wedi ailstrwythuro gwasanaethau gan symud i ffwrdd oddi wrth dimau arbenigol i greu swyddi newydd ar gyfer swyddogion diogelu'r cyhoedd cyffredinol. Mae nifer o gynghorau eraill hefyd wedi ceisio uno timau er mwyn rheoli'r galw yn well, fel Rhondda Cynon Taf sydd wedi cyfuno'r gwasanaeth cyngor busnes gyda'i dîm arolygu diogelwch bwyd.

4.12 Nododd nifer o gynghorau eraill hefyd fuddiannau posibl defnyddio technoleg ddigidol a chyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau a symleiddio gweithgarwch cefn swyddfa. Os cânt eu defnyddio'n dda, gall cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol symleiddio ymatebion a galluogi cynghorau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau dinasyddion yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, oherwydd natur uniongyrchol cyfryngau cymdeithasol, maent hefyd yn cynyddu disgwyliadau dinasyddion o ran amseroedd ymateb priodol. Ni welsom unrhyw enghreifftiau lle roedd cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio neu ddarparu gwasanaethau ac mae cynghorau'n parhau i ddefnyddio dulliau traddodiadol o ofyn am wasanaethau a'u darparu. Yn aml, nid yw'r rhain yn gyson â disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau.

4.13 Gwelsom hefyd o'n gwaith fod cynghorau wedi ceisio lleihau gorbenion. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy wedi lleihau treuliau teithio a chynhaliaeth ac wedi lleihau nifer yr ymweliadau â chartrefi er mwyn rheoli costau gwasanaeth yn well. Mae nifer o gynghorau hefyd wedi lleihau eu swyddfeydd ac wedi newid i drefniadau gweithio symudol. Mae llawer hefyd wedi lleihau neu ddiddymu lwfansau gweithio dros y penwythnos a thaliadau y tu allan i oriau ac mae pob cyngor yn rhewi swyddi gwag pan fyddant yn codi ac yn cadw'r rhain yn wag er mwyn cyflawni toriadau cyllidebol yn y dyfodol. At hynny, gwelsom mai dim ond pedwar cyngor sydd wedi defnyddio cronfeydd cyffredinol wrth gefn y cyngor i wrthbwyso diffygion a/neu fynd i'r afael â phwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn.

26 Prosiect Rhanbartholi Gwasanaethau Rheoleiddio, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, Gorffennaf 2014.

4.14 Mae llawer o gynghorau hefyd wedi canolbwyntio ar gyflwyno neu gynyddu taliadau am rai o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan sicrhau mai dim ond y rhai sy'n defnyddio gwasanaeth sy'n talu am yr hyn a gânt. O blith y 22 o gynghorau yng Nghymru, gwelsom fod 13 yn bwriadu cyflwyno neu gynyddu taliadau am wasanaethau iechyd yr amgylchedd; mae pump wrthi'n ystyried opsiynau; a dim ond dau oedd heb unrhyw fwriad i wneud hyn. O'n gwaith maes, gwelsom fod y meysydd y mae cynghorau'n canolbwyntio arnynt yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau wardeiniaid cŵn; hyfforddiant hylendid bwyd; gwasanaethau rheoli plâu; adroddiadau ar ansawdd aer; ac adroddiadau ar lygredd a thir halogedig.

4.15 Fodd bynnag, cydnabu'r rhan fwyaf o gynghorau fod cynyddu taliadau ond yn ddefnyddiol er mwyn gwrthbwyso costau mewn meysydd gweithredu penodol, y mae llawer ohonynt yn feysydd dewisol ar hyn o bryd; er enghraifft, rheoli plâu. Ni welsom ychwaith unrhyw achosion busnes a oedd yn dangos gwir gost gwasanaeth ac i ba raddau y byddai codi taliadau yn talu costau'r gwasanaeth hwnnw. Er bod cynyddu taliadau yn ddefnyddiol, ni fydd y dull gweithredu presennol yn y rhan fwyaf o gynghorau yn darparu digon o incwm i fynd i'r afael â'r gostyngiadau mewn cyllid a brofwyd mewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd hyd yma.

4.16 Gwelsom hefyd mai dim ond pum cyngor sydd wedi rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a bod 17 yn parhau i gyflawni eu hystod lawn o ddyletswyddau. Lle rhoddwyd y gorau i ddarparu gwasanaethau, mae'r rhain wedi tueddu i fod yn feysydd gwaith anstatudol yn ymwneud â rheoli cŵn, rheoli plâu a gwaith y tu allan i oriau. Yn ogystal â diddymu gwasanaethau, mae llawer o gynghorau wedi lleihau gweithgarwch ac wedi ailalinio gwaith er mwyn cynhyrchu arbedion neu gadw at y gyllideb sydd ar gael iddynt. Mae hyn wedi arwain at leihau neu roi'r gorau i waith ataliol yn gyfan gwbl, er enghraifft: cynllunio a datblygu strategol; ymweliadau addysgol ag ysgolion ar sut i fod yn berchennog ci cyfrifol a rhaglen Dewis Iach; a chylchoedd rheolaidd o arolygiadau/ymweliadau.

4.17 Er ein bod yn cydnabod bod y newidiadau hyn yn galluogi cynghorau i leihau gwariant, nid ydynt yn herio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd sylfaenol nac yn creu glasbrint tymor canolig i hirdymor o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Yn gyffredinol, deuwn i'r casgliad mai ymarfer adweithiol a chynyddol blynyddol fu'r dull gweithredu hyd yma gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y gyllideb wedi'i mantoli mewn egwyddor pan gaiff ei phennu gyda gwasanaethau'n gweithio dros y 12 mis nesaf i sicrhau y cyflawnir gostyngiadau. O ganlyniad, ac eithrio'r trefniadau cydweithio arfaethedig rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, ni chyflwynwyd unrhyw raglen waith drawsnewidiol hyd yma. Mae hyn yn golygu bod gwaith i ddiogelu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd at y dyfodol er mwyn sicrhau bod cynghorau'n parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol wedi bod yn gyfyngedig iawn yn y rhan fwyaf o gynghorau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a lles y rheini sy'n byw yng Nghymru ac yn ymweld â Chymru.

## Mae gwendidau yn y ffordd y mae cynghorau'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth amgylcheddol sy'n tanseilio eu gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol

4.18 Er mwyn lleihau gwariant yn effeithiol, mae angen i gynghorau ystyried materion mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau na fydd ansawdd gwasanaethau yn dirywio mewn meysydd cyflawni â blaenoriaeth. Dylai cynghorau flaenoriaethu'r gwasanaethau pwysicaf yn glir, yn seiliedig ar asesiad cywir a realistig o gostau, buddiannau a risgiau wrth benderfynu ble i leihau gwariant.

4.19 Felly, mae angen i gynghorau fod yn glir am eu bwriadau strategol o ran iechyd yr amgylchedd a chanolbwyntio ar wneud dewisiadau gwell a doethach sy'n blaenoriaethu ymyriadau a phenderfyniadau am wasanaethau ar sail 'cost: budd: effaith'. Bydd hyn yn galluogi cynghorau i nodi effaith gymharol penderfyniadau wrth gytuno ar doriadau cyllidebol ond byddant hefyd yn gwybod yn glir beth fydd effaith y penderfyniadau hyn ar ganlyniadau strategol a gweithredol. Yn ei hanfod, mae'r dull gweithredu hwn yn helpu cynghorau i weld pa rai o'u penderfyniadau sy'n sicrhau'r budd mwyaf.

4.20 Mae defnyddio data'n effeithiol er mwyn helpu penderfynwyr i wneud dewisiadau polisi a gweithredol hyddysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol yn hyn o beth. Felly, yn gynyddol, bydd angen tystiolaeth sy'n dangos y gydberthynas rhwng mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. Fodd bynnag, gwelsom o'n hadolygiad fod hwn yn faes gwaith y mae cynghorau wedi cael trafferth mynd i'r afael ag ef.

4.21 Fel arfer, mae gwybodaeth am berfformiad a gynhyrchir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn mesur maint a niferoedd ac weithiau ansawdd (neu foddhad) ond prin y mae'n canolbwyntio ar ddeall neu ddangos effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar iechyd a lles y cyhoedd. Gwelsom hefyd mai ychydig iawn o ddata cwbl integredig sy'n bodoli mewn cynghorau. Yn aml delir data ar ffurfiau gwahanol mewn llawer o fannau gwahanol ac ni chânt eu storio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd eu dehongli.

4.22 Er enghraifft, mae'r broses bresennol o reoli a defnyddio data yn canolbwyntio'n bennaf ar: berfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol statudol; gwariant cyllidebol; rhywfaint o ddata ar alw yn ymwneud â cheisiadau am wasanaethau; amseroedd ymateb; a chost rhai gwasanaethau - er bod hyn fel arfer yn ymwneud â gwariant cyfalaf a phrin yw'r cysylltiad â chostau staff. Delir y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn annibynnol ar ei gilydd ac ni chaiff ei dadansoddi na'i chofnodi mewn ffordd sy'n dangos sut mae adnoddau presennol yn cael eu defnyddio na'r effaith y mae'r rhain yn ei chael.

4.23 Felly, mae'r cyfyngiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorwyr, uwch reolwyr, staff gweithredol a'r cyhoedd werthuso pa fuddiannau y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig a beth fydd effaith toriadau cyllidebol. Felly, mae angen i gynghorau wella'r ffordd y maent yn casglu, yn rheoli, yn rhannu ac yn dadansoddi data er mwyn sicrhau eu bod yn cynhyrchu'r wybodaeth gywir sydd ei hangen arnynt i ddeall y penderfyniadau y maent yn eu gwneud ac effaith y penderfyniadau hyn ar wasanaethau'r cyngor a'r sawl sy'n eu defnyddio.

4.24 Un agwedd ar y gwaith o wella prosesau casglu a defnyddio data yw'r ffordd y mae cynghorau'n bwriadu defnyddio technoleg ddigidol er mwyn caffael barn dinasyddion wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae technoleg ddigidol yn datblygu'n gyflym ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae cynghorau'n rheoli ceisiadau am eu gwasanaethau, y gallu i gael gafael arnynt a'r defnydd a wneir ohonynt. Er enghraifft, bydd ffonau clyfar, cyfryngau cymdeithasol a'r cwmwl[27] yn newid lefel, manylder ac ansawdd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ym mhob cyngor dros y degawd nesaf. Mae angen i gynghorau sicrhau bod ganddynt arbenigedd digonol i achub ar y cyfle hwn a manteisio i'r eithaf ar y buddiannau a gynigir ganddo. Felly, mae angen i gynghorau sicrhau eu bod yn glir o ran y ffordd y maent yn bwriadu defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu eu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Mae dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd a bydd cynghorau'n ei chael hi'n anodd eu cyflawni

4.25 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd bwysig a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Mae hyn yn ychwanegol at newidiadau deddfwriaethol mawr diweddar fel Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013[28], a greodd ddyletswyddau gorfodol newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau. Mae pryder, yn enwedig ymhlith cynghorwyr a staff, nad yw'n ymarferol cyflwyno pwerau a dyletswyddau newydd ar adeg pan fo gwasanaethau'n cael eu cwtogi'n sylweddol.

4.26 Cyflwynwyd Bil Tai (Cymru) ar 18 Tachwedd 2013 a bydd yn gwneud newidiadau sylweddol ar draws y sector tai er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai gweddus, fforddiadwy a gwasanaethau tai gwell. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig safonau a dulliau rheoli gwell yn y sector rhentu preifat drwy gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol; lefelau is o ddigartrefedd drwy sicrhau bod atal digartrefedd wrth wraidd dyletswyddau awdurdodau lleol i helpu pobl sy'n wynebu risg; a llai o eiddo a fu'n wag am gyfnod hir drwy annog perchenogion i'w gwerthu neu eu rhentu - a thrwy hynny helpu i gynyddu'r cyflenwad o dai. Bydd goruchwylio tai sector preifat yn effeithiol a defnyddio pwerau gorfodi newydd i wella safonau ac ansawdd tai yn allweddol i lawer o fwriadau'r bil. Timau iechyd yr amgylchedd fydd yn gyfrifol am lawer o'r dyletswyddau newydd hyn.

4.27 Ym mis Ebrill 2014, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Bapur Gwyn *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*[29], sy'n nodi cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth i helpu i wella a diogelu iechyd a lles pobl yng Nghymru ymhellach. Mae'r Papur Gwyn yn nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion

27 Mae'r cwmwl yn darparu adnodd cyfrifiadura fel gwasanaeth yn hytrach na chynnyrch, lle caiff adnoddau, meddalwedd a gwybodaeth a rennir eu darparu i gyfrifiaduron a dyfeisiau eraill fel cyfleustod (fel y grid trydan) dros rwydwaith (fel arfer y rhyngrwyd). Gall cymylau fod yn gyhoeddus, yn breifat neu'n gyfuniad o'r ddau ac maent yn cynnig potensial enfawr i gael gafael ar ystod eang o ddata a'u rheoli a'u defnyddio er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

28 Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man lle gall cwsmeriaid ei gweld yn hawdd. Caiff busnesau bwyd sgôr rhwng 0 (angen gwella ar frys) a 5 (da iawn) yn seiliedig ar eu cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd. Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol orfodi'r cynllun gorfodol yn eu hardal a sicrhau bod y sgorau'n cael eu harddangos yn gywir.

29 http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/140402consultationcy.pdf

pwysig o ran iechyd y cyhoedd fel tybaco, camddefnyddio alcohol a gordewdra; datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd drwy gynigion i atgyfnerthu rôl byrddau iechyd lleol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a gwella'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus a mynediad iddynt; a gwella'r ffordd y caiff mathau penodol o driniaethau, fel tyllu cosmetig a thatŵs, eu rheoleiddio. Bydd timau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn chwarae rôl bwysig wrth gyflawni elfennau allweddol o'r ddeddfwriaeth hon fel hybu iechyd a rheoleiddio gwasanaethau.

4.28 Ym mis Ebrill 2013, lansiodd y Prif Weinidog adolygiad o'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yng Nghymru, gan nodi ei awydd i ddwyn y sector i gyfrif am ei berfformiad a'i fod wedi sefydlu comisiwn (Comisiwn Williams) i archwilio'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu llywodraethu. Cyflwynodd y comisiwn adroddiad ar ei ganfyddiadau ar 20 Ionawr 2014, ac ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn ymateb i'r agweddau ar yr adroddiad sy'n ymwneud â llywodraeth leol ac mae wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid ar y ffordd ymlaen[30].

4.29 Er bod llawer yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth newydd hon yn bwysig er mwyn gwella safonau, ansawdd a gwasanaethau a fydd yn diogelu'r cyhoedd, mae cynghorau'n dal i boeni na fyddant yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau hyn oherwydd lleihad yn nifer y staff dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn rhoi'r cyfrifoldebau newydd hyn ar waith a sicrhau y caiff dyletswyddau statudol eraill eu cynnal, mae angen i benderfynwyr ar bob lefel ystyried a blaenoriaethu'n ofalus bwysigrwydd parhau i ariannu'r gwasanaethau hyn er mwyn cynnal a/neu wella ein hiechyd a'n lles.

30 Llywodraeth Cymru, *Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Cryno*, Ionawr 2014 a Llywodraeth Cymru, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth* Leol, 8 Gorffennaf 2014

## Sylwadau o Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Iechyd yr Amgylchedd

Mae toriadau ariannol sylweddol wedi golygu bod llai o staff/nad oes staff newydd yn cael eu cyflogi yn lle staff sy'n gadael ac mae hynny'n golygu ei bod hi'n anodd cyflawni rhwymedigaethau statudol newydd (h.y. Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013). Mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n gwaethygu wrth i fwy o apeliadau a cheisiadau i ailsgorio ddod i law, gan gynyddu'r llwyth gwaith.

Rwy'n pryderu am y llwyth gwaith ychwanegol a grëir yn y dyfodol o ganlyniad i gynigion trwyddedu ychwanegol (Tai Amlfeddiannaeth) a thoriadau parhaus a all gynnwys adnoddau staff.

Mae Llywodraeth Cymru yn deddfu ar gyfer cynllun trwyddedu landlordiaid ac asiantau gorfodol ac yn torri cyllidebau Cynghorau ar yr un pryd. Nid oes neb yn cysoni'r ddwy sefyllfa hyn lle mae disgwyliadau'n cynyddu ar y naill law ac adnoddau'n cael eu cwtogi ar y llaw arall.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd o ran adnoddau, gallwn gyflawni swyddogaethau statudol a darparu'r gwasanaeth yn gyffredinol ar sail risg. Ond rydym yn wynebu rhaglen o doriadau sylweddol dros y tair blynedd nesaf a fydd yn anochel yn golygu y bydd rhai meysydd gwasanaeth yn dirywio neu hyd yn oed yn cael eu diddymu gyda'r newidiadau i arferion gwaith.

Rwy'n pryderu'n fawr na fydd gennym y gallu i ddarparu gwasanaeth cystal pe bai toriadau'n cael eu gwneud, sy'n anochel mae'n siŵr, byddai'r gwaith rhagweithiol rydym yn ei wneud yn y fantol ac rwy'n poeni na fyddem yn gallu darparu mwy na gwasanaeth adweithiol. Rydym hefyd yn cael ein herio'n gyson gan newidiadau i ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth newydd, yn enwedig yn fy maes i, sef Trwyddedu

Nid oes gennym unrhyw uwch reolwyr ar ôl sy'n deall Iechyd yr Amgylchedd nac unrhyw rôl reoleiddiol. Rydym wedi colli nifer sylweddol o staff dros y pedair blynedd diwethaf. Ni fyddai neb ar lefel uwch yn gallu cadeirio Tîm Rheoli Achosion, a hynny am y tro cyntaf mewn degawdau. Nid oes neb ar ôl a all gysylltu mewn ffordd ddefnyddiol ag Iechyd y Cyhoedd neu sy'n deall pwysigrwydd y gwaith Iechyd y Cyhoedd a wnawn mewn perthynas â methiannau o ran Ansawdd Aer ac ati. Mae'r rhain yn cael effaith enfawr ar Iechyd ein cymunedau ond, i bob pwrpas, nid ydynt yn cael eu harwain gan unrhyw un ar lefel ddigon uchel i ddylanwadu ar bolisi.




# Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg

Atodiad 2 - Cyllid cynghorau yng Nghymru

Atodiad 3 - Amcanion gwella cynghorau ar gyfer 2013-14 yn ymwneud â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd



# Atodiad 1 - Methodoleg

## Adolygu llenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- polisïau a dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru;
- ffurflenni dangosyddion perfformiad gan awdurdodau lleol i StatsCymru a'r Ganolfan Feincnodi; ac
- ymchwil a chanllawiau perthnasol gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Dadansoddiad o gyllidebau a staff iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol yn erbyn safonau arfer gorau

Gwnaethom gwblhau asesiad o safonau arfer gorau Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru a'r lefelau presennol o arfer ym mhob cyngor yn ogystal â dadansoddiad manwl o wariant refeniw a data staff ym mhob cyngor yn erbyn y safonau arfer gorau.

## Gwaith maes awdurdodau lleol

Gwnaethom ymweld â'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ebrill 2014. Yn ystod yr ymweliadau, gwnaethom gyfweld â'r aelodau staff canlynol: uwch Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd; rheolwyr iechyd yr amgylchedd; uwch swyddogion sy'n gyfrifol am dimau iechyd yr amgylchedd gwahanol; a chyfrifydd/cyfrifwyr y grŵp ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.

## Arolygon awdurdodau lleol

Gwnaethom gynnal arolwg o holl staff iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol a phob aelod etholedig rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014. Cawsom 599 o ymatebion gan staff iechyd yr amgylchedd cynghorau (62.7 y cant o'r rhai a arolygwyd) a 206 o ymatebion gan aelodau etholedig (17.6 y cant o'r rhai y gofynnwyd iddynt ymateb).

## Arolwg dinasyddion

Gwnaethom gyhoeddi a hyrwyddo arolwg ar-lein i ddinasyddion yng Nghymru. Dechreuodd yr arolwg ar 5 Rhagfyr 2013 a chaeodd ar 4 Mawrth 2014, a chawsom 572 o ymatebion.

# Atodiad 2 - Cyllid cynghorau yng Nghymru

### Grant cynnal refeniw

Dyma'r brif ffynhonnell o gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at wariant refeniw yr eir iddo at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â thai cyngor ac mae'n cyfrannu at gost gyffredinol gwasanaethau cyngor. Fe'i dyrennir gan Lywodraeth Cymru a rhennir yr arian rhwng awdurdodau ar sail fformiwla sy'n seiliedig ar y boblogaeth gyda'r nod o gydbwyso effeithiau'r anghenion a'r heriau gwahanol sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru ar y sawl sy'n talu'r dreth gyngor.

### Y dreth gyngor

Pennir swm y dreth gan gynghorau lleol bob blwyddyn ac fe'i codir yn unol â bandiau prisio. Gwneir refeniw o daliadau a godir yn unol â gwerth eiddo preswyl, a ddosbarthwyd yn fandiau prisio. Daeth bandiau presennol y dreth gyngor yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill 2005. Cyfrifir taliadau drwy rannu swm yr incwm sydd ei angen ar y cyngor a phraeseptau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod â sylfaen y dreth gyngor.



### Ardrethi annomestig

Gelwir ardrethi annomestig yn ardrethi busnes hefyd. Maent yn cyfeirio at dreth eiddo a delir ar eiddo annomestig gan fusnesau a defnyddwyr eraill eiddo annomestig er mwyn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Cyfrifir ardrethi annomestig drwy luosi Gwerth Ardrethol eiddo â 'lluosydd' ardrethi annomestig neu 'buntdal' ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn prisio eiddo at ddibenion codi ardrethi annomestig ac yn pennu'r Gwerth Ardrethol. Cyfrifoldeb cynghorau yw casglu ardrethi annomestig sy'n ddyledus gan dalwyr ardrethi yn eu hardaloedd ond maent yn talu'r elw i mewn i gronfa a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Ailddosberthir y symiau a gesglir yn ôl i awdurdodau lleol ar sail swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

### Incwm arall

Yn bennaf, mae hwn yn cwmpasu incwm sy'n deillio o grantiau penodol a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru at ddibenion polisi penodol mewn meysydd fel addysg a thrafnidiaeth a thaliadau am ddarparu gwasanaethau. Un o'r ychydig ffyrdd y gall cyngor godi incwm yn lleol yw drwy godi tâl. Maent yn cynnwys taliadau yn y man gwerthu neu fynediad fel prydau ysgol ac amgueddfeydd; ffioedd a delir ymlaen llaw am wasanaethau fel prydau ar glud neu drwyddedau parcio; gwasanaethau y codir tâl amdanynt ar ôl iddynt gael eu darparu fel gwasanaethau rheoli plâu neu atgyweiriadau statudol; a gwasanaethau lle mae'r defnyddiwr yn talu cyfraniad amdanynt yn dibynnu ar ei gymhwysedd neu ei allu i dalu, fel gwasanaethau gofal dibreswyl.

Er mwyn gweithio allan cyfran pob cyngor o grant cymorth refeniw, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad o Wariant Safonol sy’n ystyried y boblogaeth, strwythur cymdeithasol a nodweddion eraill pob awdurdod. Mae Llywodraeth Cymru (mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol) wedi datblygu fformiwlâu gwahanol yn cwmpasu prif feysydd gwasanaeth, gan gynnwys: addysg; gwasanaethau cymdeithasol personol; yr heddlu; tân; cynnal a chadw priffyrdd; gwasanaethau amgylcheddol, diogelu a diwylliannol; tai; ac ariannu cyfalaf. Defnyddir y fformiwlâu hyn i ddarparu dyraniad dangosol tybiannol ar gyfer pob gwasanaeth cyngor.

# Atodiad 3 - Amcanion gwella cynghorau ar gyfer 2013-14 yn ymwneud â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd

| Cyngor | Amcan gwella |
| --- | --- |
| Abertawe | • Helpu pobl i addasu a datblygu ffyrdd o fyw iach a chynaliadwy er mwyn gwella eu hiechyd.<br>• Gwella tai a'r cyflenwad o dai er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael. |
| Blaenau Gwent | • Darparu amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo drwy wrando ar ein dinasyddion a'n hymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnawn. |
| Bro Morgannwg | • Lleihau'r amser a gymerir i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl i blant a phobl ifanc ac oedolion er mwyn cyflawni lefel perfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2011-12 o leiaf. |
| Caerffili | • Gwella argaeledd tai sector preifat a sector cyhoeddus er mwyn lleihau nifer y trigolion a allai fynd yn ddigartref. |
| Casnewydd | • Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl -  Darparu rhaglen well o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn lleihau'r cyfnod aros cyfartalog o ddyddiad y cyswllt cyntaf. |
| Conwy | • Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.<br>• Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn tai diogel a phriodol.<br>• Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol. |
| Gwynedd | • Hyrwyddo cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol. |
| Merthyr Tudful | • Ffyrdd o fyw egnïol - Mae pobl ym Merthyr Tudful yn gorfforol egnïol ac o ganlyniad maent yn iachach.<br>• Amgylchedd cynaliadwy - Bydd pobl ym Merthyr Tudful yn byw mewn cymunedau sy'n gynaliadwy, yn lân ac yn defnyddio ynni'n effeithlon. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | • Cydweithio er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd ac annog ffyrdd o fyw iach. |
| Rhondda Cynon Taf | • Iechyd y cyhoedd a diogelu'r cyhoedd – Diogelu pobl rhag niwed a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - gorfodi a rheoleiddio oedd yr enw ar hyn mewn blynyddoedd blaenorol ac fe'i hailenwyd er mwyn adlewyrchu'n well y prif ganlyniadau i'w cyflawni. |
| Sir Ddinbych | • Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael. |

| Cyngor | Amcan gwella |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | • Gwella stoc dai y cyngor a helpu pobl leol i gael gafael ar gartrefi rhent fforddiadwy.<br>• Diogelu a gwella'r amgylchedd a gwneud cyfraniad sylweddol at bolisïau ynni cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. |
| Sir Fynwy | • Rydym yn awyddus i weithio gyda'n trigolion i leihau'r effaith a gawn ar yr amgylchedd a defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy. |
| Sir y Fflint | • Diwallu'r angen am dai yn y sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy a chartrefi o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat.<br>• Diogelu, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy. |
| Torfaen | • Sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn ddiogel, yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw. |
| Wrecsam | • Caiff pob person ei alluogi i wneud dewisiadau iach.<br>• Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl.<br>• Lle amgylcheddol gyfrifol. |
| Ynys Môn | • Cynyddu ein hopsiynau o ran tai a lleihau tlodi. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk